# Rhaglen Gyflawn

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 22AIN MAI, 2019**

Lleoliad

**Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BF**

Pwynt Cyswllt


**Annes Sion**

**01286 679490**

**cabinet@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 16/5/19)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Meirion Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Garffild Lewis | Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cemlyn Rees Williams | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rosalind Williams | Eglwys yng Nghymru |
| Haf Williams | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Peter Agnew | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Jonathan Morgan | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Arwyn Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| Karen Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Claire Homard | Cyngor Sir Fflint |
| Ian Roberts | Wrexham County Council |
| Garem Jackson | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Iwan G. Evans | Awdurdod Lletyol |
| Dafydd L. Edwards | Awdurdod Lletyol |
| Steve Vincent | Llywodraeth Cymru |
| Susan Owen Jones | Rheolwr Busnes GwE |
| Dr Gwynne Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhys Howard Hughes | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Gareth Williams | Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE |

## Sylwedydd

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2019/20

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2019/20

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hysteried.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 8

(wedi ei atodi)

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2018/19** 9 - 56

Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i gyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2018-19.

**8. CYNLLUN BUSNES LEFEL 1 2019/20** 57 - 99

Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, i gyflwyno'r Cynllun Busnes Lefel 1 ar gyfer 2019-2020 i'r Cyd-bwyllgor eu cymeradwyo.

**9. CYFRIFON GWE 2018/19** 100 - 104

Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd ac Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i ddiweddaru aelodau'r Cyd-bwyllgor ar sefyllfa ariannol derfynol cyllideb GwE am y flwyddyn ariannol 2018/19.

**CYDBWYLLGOR GwE**

**20/02/2019**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Gareth Thomas - Cadeirydd (Cyngor Gwynedd), Phil Wynn - Is Gadeirydd (Cyngor Bwrdeistrefol Siriol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), a Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn).

**Swyddogion heb bleidlais:** Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistrefol Sir Wrecsam), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy)

**Swyddogion yn bresennol:** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE) Sion Huws (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Dafydd Edwards ( Pennaeth Cyllid Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Mon), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Bethan Roberts (GwE), Sion Wyn Evans (GwE), Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Garffild Lewis (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Cyng. Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwyr), Arwyn Williams (Cyngor Sir Ynys Mon), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Iwan Evans (Swyddog Monitro Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd) a Steve Vincent (Llywodraeth Cymru).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 28 Tachwedd 2018, fel rhai cywir.

## 5. CYLLIDEB GWE 2018-19 - ADOLYGU CHWARTER 3

PENDERFYNIAD

Derbyn yr Adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod GwE yn cadw o fewn y cyllid craidd am 2018-19, a bod yr amcangyfrif yn nodi tanwariant net o £994.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth:

- Cafwyd trafodaeth ar amlder arolygiadau Estyn yn benodol mewn rhai ysgolion uwchradd.

- Nodwyd fod llawer o'r arian sydd yn dod i GwE yn cael ei ddatganoli'n uniongyrchol i'r ysgolion.
- Tynnwyd sylw at gynnydd mewn costau teithio a mynegwyd fod hyn oherwydd fod cymaint o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd. Nodwyd fod angen codi'r mater â'r Llywodraeth, ac efallai cynnig fod y cyfarfodydd yn cael eu trefnu mewn lleoliadau eraill yn ogystal.

## 6. CYLLIDEB SYLFAENOL 2019/20

PENDERFYNIAD

Mabwysiadau'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2019/20 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod cyllideb GwE yn parhau i ddatblygu. Nodwyd fod effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol, gan gynnwys codiadau cyflog a chynnydd CPI. Ychwanegwyd fod y gyllideb yn adlewyrchu penderfyniad Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru i gynnwys targed arbedion sy'n cyfateb i leihad o 1% yn nhermau arian, yng nghyfraniadau craidd y 6 awdurdod; mynegwyd yn nhermau real fod 3.19% o gynnydd mewn costau.

Ychwanegwyd gyda'r cynnydd mewn costau, yr angen am gynllun parhaol ar gyfer arbedion 2018/19 a gorwariant blynyddol yn y Cyflenwadau a Gwasanaethau y bydd angen darganfod cyfanswm cronnus arbedion o £206,485 ar gyfer 2019/20.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd os yw'r codiadau mewn cyflogau a phensiwn athrawon sydd ar secondiadau yn GwE wedi eu cynnwys yn y gyllideb. Nodwyd o ran yr athrawon sydd ar restrau cyflogaeth GwE, mae'r rhain wedi eu cynnwys.
- Nodwyd fod grantiau wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod trafodaethau dwys wedi eu cynnal, ac yn parhau am gyllidebau addysg.
- Diolchwyd i Dr Gwynne Jones a Dafydd Edwards am eu cefnogaeth.

## 7. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2018/19 – 2021/22

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi nad oes llawer o newidiadau i'r Cynllun. Ychwanegwyd ei bod yn anodd rhagweld beth fydd yn digwydd yn y dyfodol gan fod llawer yn ddibynnol ar benderfyniadau'r Llywodraeth, sydd hefyd yn creu llawer o ansicrwydd. Nodwyd pwysigrwydd o edrych ar arbedion yn barod i'r dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd ei bod yn anodd cyflwyno cynllun ariannol tymor canolig tair blynedd gan fod y gyllideb mor annelwig, ond pwysleisiwyd pwysigrwydd y cynllun.
- Mynegwyd yr angen am drafodaethau â Gweinidogion Llywodraeth Cymru i drafod os oes digon o gefnogaeth ar gael i ysgolion. Ychwanegwyd fod angen fwy o eglurdeb o rôl GwE pan fydd newidiadau yn y cwricwlwm. Nodwyd fod angen codi hyn gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**8. CYNLLUN BUSES 2018-19 – MONITRO CHWARTER 3**

PENDERFYNIAD

Derbyn yr Adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai'r brif flaenoriaeth yw Cyfnod Allweddol 4, gan fod pryderon wedi codi am yr arholiadau Saesneg.

Tynnwyd sylw at adran 3 o'r Cynllun – Arweinyddiaeth – yn benodol gwella ansawdd arweinyddiaeth adrannol mewn pynciau craidd mewn ysgolion. Ychwanegwyd fod gwaith da yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r ysgolion.

Tynnwyd sylw yn ogystal at adran 4 o'r Cynllun – Lles – angen parhau i edrych ar gynlluniau i gefnogi plant mewn gofal a disgyblion sydd yn cael cinio am ddim.

**9. CYNLLUN BUSNES LEFEL 1 – BLAENORIAETHAU 2019-20**

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y prif flaenoriaethau gwella wedi eu hadnabod. Nodwydd y blaenoriaethau a oedd yn cynnwys gwella perfformiad yn y sector uwchradd, cwricwlwm trawsnewidiol, lles, rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a'r model ymgysylltu a chymheiriaid. Cytunwyd i gyflwyno copi o'r Cynllun Busnes yn y cyfarfod nesaf.

**10. COFRESTR RISG GwE**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod cofrestr risg GwE yn ddogfen fyw sydd yn cael ei hadolygu yn gyson. Mynegwyd fod yr holl risgiau wedi ei hadolygu a'u diweddaru a bod 9 o risgiau wedi ei diwygio, sef risg 2,5,6,8,12,13,14,15 ac 17.

**11. Y GYMRAEG MEWN ADDYSG – CYLCH GORCHWYL**

Penderfynwyd gohirio trafod yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

**12. CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL**

PENDERFYNIAD

Derbyn yr Adroddiad

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod categoreiddio yn broses barhaus. Mynegwyd fod y Gweinidog dros addysg wedi nodi'r posibilrwydd y bydd y broses yn cael ei addasu.

Nodwyd fod pob ysgol uwchradd gyda chynllun cefnogaeth a bod trafodaethau wedi eu cynnal am lefel y gefnogaeth i ysgolion.

Mynegwyd fod yr adroddiad am y broses yn unig. Nodwyd fod 35 o ysgolion wedi eu dethol o'r chwe awdurdod ar gyfer y Cymedroli Rhanbarthol, a chafwyd trafodaeth gadarn yn ystod y cymedroli. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau wedi eu gwneud i'r ysgolion yn ystod y broses a ni dderbyniwyd unrhyw ymholiadau gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyflwyno'r sampl iddynt.

**13. CALENDR CYFARFODYDD 2019/20**

Penderfynwyd derbyn y dyddiadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**22 MAI 2019**

**Report by:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Subject:** Adroddiad Blynyddol GwE 2018-19

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2018-19.

**2.0 Cefndir**

2.1 Fel y datgenir yng Nghytundeb Rhyng–Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol am berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni Swyddogaethau'r Gwasanaeth a'r Nodau Allweddol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Ynghlwm, cyflwynir yr adroddiad blynyddol sydd yn rhoi trosolwg o'r meysydd a ganlyn: safonau, darpariaeth, cyfraniad y gwasanaeth i'r daith ddiwygio, gweithio mewn partneriaeth a materion busnes.

3.2 Mae'r prif feysydd sydd angen eu datblygu, a adnabuwyd o'r drefn hunan arfarnu, yn flaenoriaethau yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019-2020.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol.

## 5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

## 6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghori â wnaed

8.1 Cynhelir trafodaethau cyson gyda Bwrdd Rheoli GwE.

## 9.0 Atodiadau

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2018-19.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Swyddog Monitro:**

Cadarnhaf fod cyfrifoldeb ar Reolwr Gyfarwyddwr GwE, yn unol â'r cytundeb rhwng awdurdod, i gyflwyno adroddiad ar berfformiad y Gwasanaeth i'r Cyd- Bwyllgor a'r Cynghorau yn flynyddol.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf gywirdeb y symiau ariannol a'r canrannau sy'n ymddangos dan y pennawd 'Cyllideb' yn rhan 1 o Adroddiad Blynyddol GwE am 2018/19. Mae rhan 3.2 o'r adroddiad blaen yn nodi fod y prif feysydd sydd angen eu datblygu wedi'u hadnabod yn flaenoriaethau yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2019/20. Ymhellach, mae rhan 5.1 o'r adroddiad blaen yma'n cadarnhau bydd GwE yn gweithredu'r cynllun oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# 2018-2019

## CYNNWYS

**1. Cefndir a Chyd-destun**

**2. Safonau**
- **Trosolwg o berfformiad**
- **Proffil Arolygiadau Ysgolion Estyn**
- **Categoreiddio Cenedlaethol**

**3. Darpariaeth**
- **Cwricwlwm ac Asesu**
- **Arweinyddiaeth**
- **Addysgu**
- **Lles**

**4. Y daith ddiwygio**
- **Datblygu Cwricwlwm**
- **Dysgu Proffesiynol**
- **Atebolrwydd**
- **Digidol**
- **Y Gymraeg**
- **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- **Asesu a Thracio**
- **G6**

**5. Gweithio mewn partneriaeth**
- **Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu**
- **Addysg Gychwynnol Athrawon**
- **Ymchwil a Gwerthuso**

**6. Busnes**

**7. Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2019-20**

---

Atodiad 1 - Adroddiad Steve Munby
Atodiad 2 - Grwpiau o Ddysgwyr
Atodiad 3 – Fframwaith Atebolrwydd

## 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

**Cyflwyniad**
Mae GwE yn parhau i edrych tuag allan a chroesawu her oddi mewn i Gymru a'r tu hwnt tra sicrheir bod yr hyn a ddatblygir yn addas i'r cyd-destun. Mae hyn yn cynnwys gwrando'n barhaus ar lais pob rhanddeiliad, yn enwedig llais athrawon ac arweinwyr ysgolion ym mhob sector.

Cafodd cynnydd GwE ei gymeradwyo gan Estyn yn dilyn ei ail ymweliad. Yn adroddiad Estyn, daethpwyd i'r casgliad bod GwE wedi cynnal adolygiad trylwyr a chynhwysfawr o'i waith a'i effaith ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth ers yr arolygiad craidd. Nodir hefyd yn yr adroddiad bod gan randdeiliaid ar bob lefel hyder cynyddol yng ngallu GwE i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol, ac y gwnaed newidiadau sylweddol i strwythurau rheoli er mwyn gwasgaru arweinyddiaeth a sicrhau llinellau atebolrwydd clir.

Barnwyd bod cynnydd yn erbyn pedwar o'r argymhellion yn dda iawn, gyda chynnydd cryf yn erbyn y ddau argymhelliad arall. Tynnodd Estyn sylw hefyd at gyflymdra sylweddol y gwelliant, gan gydnabod bod llawer wedi'i gyflawni mewn cyfnod byr iawn o amser. Mae gan GwE gynllun tair-blynedd clir sy'n amlinellu sut y bydd, drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella'r dysgu a'r addysgu, yn codi'r dyhead i gael effaith ar safonau a chyflymu ymhellach gyflymdra'r gwelliant yn ysgolion uwchradd y rhanbarth.

Mae'r ffocws bellach ar gefnogi ac ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella. 'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' (YCG) yw Ymgynghorwyr Her bellach, ac mae hyn yn fwy na newid mewn enw yn unig - mae'n arwydd o benderfyniad i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a symud oddi wrth ddull 'o'r brig i lawr' o wella ysgolion, gan ddatblygu, yn hytrach, strategaeth fwy hir dymor, cefnogol a chynaliadwy.

Mae cynlluniau busnes cadarn a manwl, sy'n gwbl seiliedig ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu, yn cyfrannu'n sylweddol at reoli a datblygu unigolion a thimau yn effeithiol. Mae model cynllunio a rheoli perfformiad amgenach GwE yn nodi'n glir weledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth. Mae cyfeiriad strategol clir a fframwaith atebolrwydd grymus yn gryfderau allweddol wrth symud ymlaen. Mae'r pwyslais cryf hwn ar atebolrwydd, yr adolygu parhaus a'r pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â blaenoriaethau yn arwain at welliant sylweddol ym mherfformiad staff GwE, perfformiad ysgolion unigol a deilliannau rhanbarthol. Mae blaenoriaethau GwE yn gydnaws â'r blaenoriaethau cenedlaethol a amlinellir yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*.

Mae GwE yn gwneud cynnydd da ar gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol hynny. Nodwyd cerrig milltir clir i gefnogi ysgolion gydag agweddau ar y daith ddiwygio megis cwricwlwm ac asesu, arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, y Gymraeg mewn Addysg, ADY a chymhwysedd digidol. Ym mis Medi 2018, adolygodd Steve Munby - ymgynghorydd addysg ar arweinyddiaeth a diwygio - arferion presennol GwE a'r cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo, a nodwyd y meysydd a ganlyn fel cryfderau:

1. Mae'r tîm wedi meithrin hygrededd gydag ysgolion. Yn fwyfwy ar lefel uwchradd, mae Penaethiaid presennol yn cefnogi GwE (naill ai ar secondiad neu fel cynorthwywyr rhan amser). Fel arfer, mae gan Ymgynghorwyr cynradd brofiad o fod yn Bennaeth.
2. Mae perthynas gref iawn gydag awdurdodau lleol, gan gynnwys y chwe arweinydd portffolio addysg.
3. Mae'r rhaglen dysgu proffesiynol yn seiliedig ar angen yn hytrach nag ar ddiddordeb ac arbenigedd yr ymgynghorwyr.

4. Ar yr un pryd â chefnogi hunan arfarnu, mae gan yr adnodd G6 newydd y potensial i arbed amser i ysgolion a chyfuno'r gofynion craffu a monitro amrywiol. Mae potensial sylweddol iawn iddo.
5. Mae cynlluniau busnes mewnol yn gadarn ac yn cael eu monitro yn systematig - mae cyswllt rhwng gweithgarwch, effaith a monitro'r gyllideb. Mae hyn yn ganmoladwy.
6. Mae rhai clystyrau yn gweithio'n dda iawn ac yn arddangos cydweithredu sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a chyd-gyfrifoldeb; er mai lleiafrif yw'r rhain o hyd.
7. Mae GwE i'w gymeradwyo am ei waith yn galluogi ysgolion arloesi i arddangos arweinyddiaeth gydweithredol gref yn eu clystyrau ar gyfer y cwricwlwm newydd, er mai anghyson yw hyn o hyd.
8. Mae'r system arfaethedig newydd ar gyfer dadansoddi cynnydd disgwyliedig disgyblion, sydd â chyswllt â gwerth ychwanegol a ffactorau cyd-destunol, yn drawiadol iawn. Gallai helpu i symud y diwylliant oddi wrth cystadlu ag ysgolion eraill a chanolbwyntio ar ddisgyblion ffiniol tuag at ganolbwyntio ar bob disgybl a'i gynnydd.
9. Mae'n ddyddiau cynnar, ond mae gan y pwyslais ar ddefnyddio data bach ar gyfer gwella ysgol botensial mawr i gynyddu hyder ysgolion mewn dulliau gwella yn yr ysgol, a gall rymuso athrawon i gymryd mwy o gyfrifoldeb am wella'r dysgu a'r addysgu a chefnogi eu disgyblion yn eu dosbarthiadau/ysgolion.
10. Mae dull newydd o greu cyfarwyddiadur o arferion llwyddiannus y gellir ei rannu yn electronig. Mae gan hyn y potensial i raeadru arferion da mewn dull ymarferol.
11. Gwneir cynnydd sylweddol iawn ar ddatblygu arweinyddiaeth - wedi'i gysylltu â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth trawiadol a'r cyfeiriad newydd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (NAEL). Mae hyn yn gam mawr ymlaen ac mae potensial mawr i wella ansawdd arweinyddiaeth mewn ysgolion.

Yn ei adroddiad, daw Steve Munby i'r casgliad:

> *The direction of travel that GwE has adopted is exactly the right one. Much is now in place to move things forward strongly – leadership, clear direction, culture, mission and focus, relationships, credibility with schools and local authorities, systems, quality assurance, data. Above all GwE should hold its nerve and keep doing what it is doing.*
>
> *I am coming away from these two days feeling positive about the prospects for success in North Wales, in spite of the numerous challenges. The quality of the GwE team is high and the strategies are impressive. The direction of travel is the right one and the team are open to external challenge whilst determined to do the right things for the schools and the children in North Wales.*

**Cyllideb**

Fel pawb arall, rydym yn byw mewn hinsawdd ariannol anodd iawn a rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth y Prif Weithredwyr yn y Rhanbarth ac am gyngor a chefnogaeth Aelodau Etholedig y Cyd-bwyllgor wrth wneud y penderfyniadau gorau i gefnogi ein dysgwyr a'n hysgolion.

Y gyllideb graidd ar gyfer 2019-2020 yw £3,614,596. Mae hyn yn doriad o 3% i gyllideb graidd y llynedd, a oedd yn £3,651,106. Mae'r gyllideb graidd bellach oddeutu 25% yn llai na'r cyfnod cyn sefydlu GwE. Bydd y Grant Gwella Addysg yn £29,064,551 ar gyfer eleni (yn cynnwys cyllid cyfatebol). Mae hyn yn doriad o bron i £8miliwn ar gyllideb 2015. Ar yr un pryd, bu cynnydd o 13% mewn costau staffio o ganlyniad i gyflwyno isafswm cyflog, cyflog byw a chyfraniadau pensiwn. Wrth reoli'r heriau ariannol hyn, rydym wedi parhau i gynyddu ein cyfraddau dirprwyo i ysgolion. Mae GwE yn cadw oddeutu 3% o'r GGA i ddarparu cefnogaeth i ysgolion.

| | | | *Grant a chyfateb* | *Grant a chyfateb* |
|---|---|---|---|---|
| | | **Grant a chyfateb** | **Toriad (£)** | **Toriad (%)** |
| ***11 Grant Unigol*** | **14/15** | **£37,021,296** | | |
| ***GGA*** | **15/16** | **£33,549,764** | -£3,471,532 | -9.38% |
| ***GGA*** | **16/17** | **£31,902,703** | -£1,647,061 | -4.91% |
| ***GGA*** | **17/18** | **£31,672,444** | -£230,259 | -0.72% |
| ***GGA*** | **18/19** | **£29,124,247** | -£2,548,197 | -8.05% |
| ***GGA*** | **19/20** | **£29,064,551** | -£59,696 | -0.20% |
| | | **Cronnus** | **-£7,956,745** | **-21.5%** |

**Atebolrwydd**
Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â blaenoriaethau'r rhanbarth. Mae'r prosesau arfarnu sydd bellach ar waith yn gylchol a pharhaus, ac mae llinellau atebolrwydd clir. Nodir y blaenoriaethau cytûn a'r meysydd ar gyfer gwelliant yn 2019-20 yn adran 7 yr adroddiad hwn, ac maent yn seiliedig ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu.

Mae amrywiol fforymau yn dwyn GwE i gyfrif yn ystod y flwyddyn, sef Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyfarfodydd cyswllt Estyn ac arolygiadau Awdurdod Lleol, Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol, Byrddau Ansawdd Sirol Awdurdodau Lleol, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor, a hynny yn unol â'r Fframwaith Atebolrwydd.

Yn adroddiad arolygiad Sir Ddinbych (Chwefror 2018), daeth Estyn i'r casgliad:

> *"caiff rolau a chyfrifoldebau'r awdurdod a'i gonsortiwm gwella ysgolion rhanbarthol (GwE) eu diffinio'n glir a'u deall yn dda gan swyddogion yr awdurdod, staff y consortiwm ac arweinwyr ysgol. Trwy uwch swyddogion, aelodau etholedig a staff GwE, caiff ysgolion yn Sir Ddinbych eu herio'n drylwyr ynglŷn â'u perfformiad, gan gynnwys y deilliannau ar gyfer disgyblion, ansawdd yr addysgu, y gofal y maent yn ei ddarparu, ac ansawdd yr arweinyddiaeth. Yn aml, caiff ysgolion eu cefnogi'n dda ac yn gymesur â'u hanghenion yn dilyn categoreiddio ysgolion yn briodol.*
>
> *Mae ysgolion y nodwyd eu bod yn destun pryder yn cael cymorth sylweddol, ac ymyrraeth, pan fydd angen. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn gwella ar gyflymdra priodol o ganlyniad.*
>
> *Caiff ysgolion eu cefnogi'n dda mewn agweddau ar flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft o ran gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, ac o ran paratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Gall darpar uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, ac uwch arweinwyr ac arweinwyr canol presennol, elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd da i ddatblygu eu medrau arwain."*

Mae cyfarfodydd Her ac Adolygu Llywodraeth Cymru, a gynhelir yn flynyddol yn ystod tymor yr hydref, yn cael eu cadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac mae'r ffocws ar berfformiad, cynnydd, cynllunio a chyllidebau yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol. Roedd y cyfarfod diwethaf yn gadarnhaol iawn a mynegwyd bod y bar wedi'i osod yn uchel, sy'n arddangos aeddfedrwydd gwleidyddol y Cyd-bwyllgor.

**Cyd-destun cenedlaethol a data ysgolion**

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn wahanol i'r hyn gyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newidiadau sylweddol i sut yr adroddir ar fesurau perfformiad. Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi asesiadau athrawon, bellach nid oes cyhoeddi data cymharol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 na Chyfnod Allweddol 3 yn yr ysgol, ar lefel awdurdod lleol na chonsortia. Felly, y tu hwnt i gymhariaeth â chyfartaleddau cenedlaethol, nid oes unrhyw wybodaeth gymharol na meincnodol ar gael.

**Newidiadau i Feysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen**

Ym mis Hydref 2014, cafodd Meysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu a Datblygiad Mathemategol eu diwygio fel eu bod yn gydnaws â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (y FfLlRh) ac fel eu bod yn gofyn llawer mwy. Yn unol â hyn, cafodd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen eu haddasu er mwyn bod yn gydnaws â disgwyliadau uwch y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Cafodd y Meysydd Dysgu diwygiedig eu cyflwyno yn statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Golyga hyn mai'r garfan o ddysgwyr a ddechreuodd yn y Derbyn ym mis Medi 2015 fydd y gyntaf i'w hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau ar eu newydd wedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn haf 2018. Felly, dylid osgoi cymharu canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen â blynyddoedd blaenorol gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol.

**Gwybodaeth gyd-destunol am arholiadau 2018**

Newidiodd llawer o gymwysterau TGAU yn 2017 ac, fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ni fyddai'n briodol cymharu ar sail canlyniadau â blynyddoedd blaenorol. Mae deilliannau TGAU yn sylweddol anwadal o hyd, ac mae newidiadau sylweddol i batrwm a nifer y disgyblion yn sefyll arholiadau yn haf 2018 wedi cael effaith ar ganlyniadau. Gwelir hyn yng nghyfran y graddau A*-C ym mhob pwnc yng Nghymru, gostyngiad o 1.2% i 61.6%. Mae TGAU yn cael ei ddiwygio, a chynhaliwyd arholiadau am y tro cyntaf yr haf hwn mewn 15 pwnc a ddiweddarwyd.

Arholwyd y gyfres newydd o gymwysterau TGAU mewn gwyddoniaeth am y tro cyntaf yn 2018, sy'n cyd-daro â'r newidiadau i ddangosyddion perfformiad CA4, i gynnwys canlyniadau TGAU yn unig ar gyfer gwyddoniaeth, fel dau fesur yn y dangosydd Capio 9. Felly, nid yw cymharu â data hanesyddol yn briodol. Gallai ysgolion ddewis llwybrau dysgu o blith y llwybr Gwyddoniaeth Driphlyg, Gwyddoniaeth Dwyradd, Gwyddoniaeth Gymhwysol Dwyradd a Gwyddoniaeth Gymhwysol Gradd Unigol. Gan bod y dangosydd Capio 9 yn cynnwys dau fesur Gwyddoniaeth, dilynodd y rhan fwyaf o ysgolion y llwybrau triphlyg a dwyradd.

Cafodd y newidiadau i ffiniau graddau CBAC a sefyll yn gynnar effaith ar berfformiad mewn TGAU Iaith Saesneg. Cafodd penderfyniadau ysgolion unigol ynghylch sefyll arholiadau ddylanwad sylweddol ar ddeilliannau ysgolion mewn Saesneg. Mae hyn hefyd wedi cael effaith ar berfformiad lefel 2+, ble mae Saesneg yn gydran allweddol o'r mesur. Bu newidiadau sylweddol i ffiniau graddau rhwng arholiadau haf a mis Tachwedd 2017 ac arholiadau haf 2018.

## 2. SAFONAU

### TROSOLWG O BERFFORMIAD

#### Asesiadau Athrawon – Perfformiad yn y prif ddangosyddion

**Cyfnod Sylfaen -** Yn rhanbarthol disgynnodd y ganran a lwyddodd o'r 87.0% yn 2017 i 83.2% yn 2018, cwymp o 3.8%, ond yn llai na'r gostyngiad cenedlaethol o 4.7%. Mae'r ganran a lwyddodd bellach yn uwch na'r ganran genedlaethol o 82.6% am y tro cyntaf ers 2013.

Roedd y cyfraddau llwyddo ymhob pwnc craidd yn uwch na'r cyfraddau cenedlaethol, heblaw am y Gymraeg.

**Cyfnod Allweddol 2 -** Mae asesiadau athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2 yn gadarn. Mae perfformiad eleni ar y lefel ddisgwyliedig yn cyfateb i'r canlyniadau a gafwyd y llynedd i raddau helaeth ac yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y DPC (90.1 o'i gymharu ag 89.5% yn genedlaethol). Yr unig eithriad yw bod perfformiad y Gymraeg ar y lefel ddisgwyliedig ychydig yn is. Mae hyn oherwydd bod canran y dysgwyr sydd wedi'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae canran y dysgwyr sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg ail iaith wedi cynyddu eto am y bumed flwyddyn.

**Cyfnod Allweddol 3 -** Parhau i gynyddu y mae'r ganran a lwydodd i gyrraedd y dangosydd pwnc craidd o 88.7% yn 2017 i 89.3% yn 2018, cynnydd o 0.6% o'i gymharu â'r cynnydd cenedlaethol o 0.7%. Mae'r ganran a lwyddodd yn parhau i fod yn uwch na'r cyfradd cenedlaethol o 88.1%.

Cynyddodd canran y plant a lwyddodd i gyrraedd y lefel disgwyliedig ymhob pwnc craidd heblaw am gwyddoniaeth, a ddisgynnodd 0.1%. Roedd y cynnydd a welwyd ychydig yn is na'r cynnydd cenedlaethol, ond mae'r cyfraddau llwyddo yn parhau i fod yn uwch na'r cyfraddau cenedlaethol ymhob pwnc.

**Cyfnod Allweddol 4 –** Gwelwyd newidiadau sylweddol i ffiniau graddau yn yr haf o'u cymharu â'r haf blaenorol a mis Tachwedd 2017, ac yn arbennig felly ar gyfer gradd C mewn Saesneg a mathemateg ble roedd angen nifer sylweddol yn fwy o farciau i dderbyn y radd. O'r herwydd, dylanwadwyd ar ganlyniadau ysgolion yn sylweddol gan benderfyniadau cofrestru a phryd y gwnaeth disgyblion sefyll yr arholiadau. Gwnaeth hyn hi'n anodd hefyd i ysgolion sicrhau bod y disgyblion cywir wedi'u hadnabod ar gyfer ymyrraeth.

Bu i ganran lai o ddysgwyr sefyll arholiadau yn gynnar mewn Saesneg Iaith yn y gogledd o'i gymharu ag ardaloedd eraill, ac o'r herwydd gwelwyd cwymp rhanbarthol yn y ganran a lwyddodd mewn Saesneg. Cafodd hyn effaith sylweddol ar y ganran a lwyddodd i gyflawni'r L2+, gyda'r ganran a lwyddodd yn disgyn o 53.6% yn 2017 i 52.0% yn 2018.

Yn 2018, gwelwyd cynnydd yn y cyfraddau a lwyddodd i ennill A*-C mewn Cymraeg (+0.5%), Rhifedd (+0.7%) a Mathemateg (+0.5%), ond fel y disgwyl, gyda llai o bynciau galwedigaethol yn cyfrannu, disgynnodd y ganran a lwyddodd i ennill A*-C mewn Gwyddoniaeth (11.5% o'i gymharu â chwymp o 12.6% yn genedlaethol). Mae gwella perfformiad mewn Saesneg Iaith ac ar y graddau uwch (5A*-A) yn flaenoriaeth i'r rhanbarth.

**Chweched Dosbarth –** Mae'r model darparu ar gyfer Cyfnod Allweddol 5 yn amrywio mewn awdurdodau ac ar draws y rhanbarth. Cyflwynir y ddarpariaeth naill ai gan ysgolion unigol, colegau 6ed dosbarth, colegau addysg bellach neu ysgolion (a cholegau) yn cydweithio o fewn consortiwm. O'r herwydd, mae'n anodd dod i gasgliad ystyrlon am berfformiad Cyfnod Allweddol 5 ysgolion y rhanbarth. Yn 2018, cynyddodd cyfradd y disgyblion 17 mlwydd oed a lwyddodd i gyflawni'r trothwy Lefel 3 o 97.3% i 97.7%, sydd ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol. Cynyddodd cyfartaledd y sgôr pwyntiau hefyd, o 719.7 i 734.3, sydd ychydig yn is na'r 740.1 a welwyd yn genedlaethol. Mae perfformiad ysgolion ar y graddau uwch A*-A yn agwedd sydd angen ei gwella.

Ym mhob sector, dengys tystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant pynciol yn dilyn cyd-graffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a theithiau dysgu gyda'r Uwch Dîm Arwain ac arweinwyr canol bod gwelliant mewn safonau ac ansawdd y dysgu mewn llawer o achosion. Tra bo heriau o hyd, dengys tystiolaeth a gasglwyd fwy o gysondeb o fewn, ac ar draws, llawer o ysgolion o ganlyniad i gefnogaeth ac arweiniad â ffocws ar:

- ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol
- dyfnhau dealltwriaeth o Asesu ar gyfer Dysgu er mwyn cael effaith ar gynnydd dysgwyr
- datblygu dysgwyr annibynnol drwy sicrhau eu bod yn ymwneud yn llawn â'u dysgu eu hunain
- sicrhau cynllunio o ansawdd ar gyfer datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm
- sicrhau defnydd fwy miniog o asesu
- datblygu systemau olrhain mwy cadarn
- adnabod, a defnyddio, rhaglenni ymyrraeth perthnasol ar gyfer disgyblion targed

Gwelwyd effaith yr uchod mewn llawer o ysgolion ac adrannau yn ystod y flwyddyn. Yn benodol, canran uwch o ddisgyblion yn:

- gweithio'n annibynnol, neu mewn grwpiau bach, i gadarnhau eu gwybodaeth ac ymestyn eu dealltwriaeth
- arddangos gwytnwch a dyfalbarhad wrth fynd i'r afael â thasgau fwy heriol
- dyfnhau eu dealltwriaeth o destunau pwnc benodol drwy gwestiynu fwy medrus
- datblygu sgiliau geiriol a sgiliau meddwl
- ymateb yn fwy effeithiol i adborth gan yr athro
- datblygu sgiliau asesu drwy asesu cymheiriaid a hunan asesu
- arddangos dealltwriaeth glir o'r sydd sydd angen wneud i sicrhau cynnydd pellach
- defnyddio sgiliau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
- asesu yn fwy effeithiol gryfderau opsiynau a dadleuon a gyflwynir gan eraill

Wrth symud ymlaen, mae angen sicrhau y gwreiddir yr arfer effeithiol a nodir uchod mewn ysgolion ac adrannau.

## PROFFIL AROLYGIADAU YSGOLION ESTYN

Mae'r proffil arolygiadau ym mhob sector yn y rhanbarth yn gryf.

Arolygiadau ysgolion - Cyfunol Medi 2017 - Mawrth 2019 (cyfartaleddau Cymru mewn cromfachau)

| | Dim dilyniant | GS | MA |
|---|---|---|---|
| 2017-18 (69) | 83% (77) | 1.5% (3) | 1.5% (3) |
| 2018-19 (42) | 73% | 3% | 3% |

Barn - Holl ysgolion 2017-18 (cyfartaleddau Cymru mewn cromfachau)

| | MA1 | MA2 | MA3 | MA4 | MA5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagorol | 7 (8) | 25 (18) | 6 (8) | 18 (19) | 14 (11) |
| Da | 77 (70) | 70 (70) | 68 (62) | 77 (68) | 68 (64) |
| Digonol | 15 (20) | 4 (10) | 25 (26) | 4 (11) | 15 (20) |
| Anfoddhaol | 1 (2) | 1 (2) | 1 (4) | 1 (2) | 3 (5) |

Arolygiadau ysgolion Cynradd Medi 2017 - Mawrth 2019 (cyfartaleddau Cymru mewn cromfachau)

| | Dim dilyniant | GS | MA |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2017-18 (51) | 86.4% (81) | 1.7% (4) | 0% (2) |
| 2018-19 (34) | 88% | 0% | 0% |

Arolygiadau ysgolion Uwchradd Medi 2017 - Mawrth 2019 (cyfartaleddau Cymru mewn cromfachau)

| | Dim dilyniant | GS | MA |
|---|---|---|---|
| 2017-18 (7) | 57% (52) | 0% (7) | 14% (7) |
| 2018-19 (8) | 12.5% | 12.5% | 12.5% |

Arolygiadau ysgolion Arbennig/UCD Medi 2017 - Mawrth 2019

| | Dim dilyniant | GS | MA |
|---|---|---|---|
| 2017-18 (3) | 66% | 0% | 0% |
| 2018-19 (2) | 100% | 0% | 0% |

Barnau Cynradd 2017-18 (cyfartaleddau Cymru mewn cromfachau)

| | MA1 | MA2 | MA3 | MA4 | MA5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagorol | 7 (8) | 24 (18) | 5 (7) | 15 (18) | 15 (12) |
| Da | 81 (76) | 71 (75) | 73 (68) | 80 (72) | 71 (69) |
| Digonol | 12 (16) | 3 (7) | 24 (23) | 5 (10) | 12 (16) |
| Anfoddhaol | 0 (1) | 0 (0) | 0 (3) | 0 (1) | 2 (4) |

Cynradd - Yn 2017-18, mewn 51 o ysgolion (86.4%), cyhoeddwyd nad oedd angen unrhyw ddilyniant, o'i gymharu â 77.6% yn 2016-17. Roedd ar 13.6% angen dilyniant, o'i gymharu â 24.2% yn 2016-17. Dyfarnwyd y categori dilyniant lleiaf dwys [adolygu gan Estyn] i 7 ysgol (11.9%), a gosodwyd un ysgol (1.7%) yn y categori Gwelliant Sylweddol. Ar hyn o bryd, mae 12 ysgol mewn categori dilyniant. Dwy ysgol yn unig sydd mewn Categori Statudol ar hyn o bryd (un mewn mesurau arbennig a'r llall yn y categori gwelliant sylweddol). Mae hyn yn cyfateb i 0.5% o ysgolion cynradd. Cynyddodd canran yr ysgolion y barnwyd yn rhagorol, o 2.4% yn 2016/17 i 13.2% yn 2017/18.

Hyd yma yn 2018-19 (hyd at ddiwedd Mawrth 2019), mae'r proffil arolygiadau Cynradd yn cymharu'n ffafriol â phroffil 2017-18. Ni osodwyd yr un ysgol mewn categori statudol, tra gosodwyd pedair ysgol mewn 'adolygu gan Estyn'. Mae hyn yn 12%. Barnwyd bod 88% o ysgolion yn Dda neu Ragorol mewn Safonau, Addysgu a Phrofiadau Dysgu ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Barnwyd bod 94% o ysgolion yn Dda neu Ragorol mewn Lles ac Agweddau at Ddysgu. Mae nifer yr ysgolion y barnwyd bod ganddynt ragoriaeth wedi cynyddu eto eleni, gyda 15% â rhagoriaeth mewn dau faes o leiaf.

Uwchradd - o'r 8 ysgol a arolygwyd, nid oedd angen unrhyw ddilyniant mewn un, barnwyd bod 5 yn y categori dilyniant lleiaf dwys [adolygu gan Estyn] tra gosodwyd dwy mewn mesurau arbennig [un GS a'r llall MA]. Roedd y ddwy ysgol hon eisoes wedi'u hadnabod fel 'risg uchel' yn ein proffil. Barnwyd bod 5 ysgol yn Dda ym maes arolygu 2 [lles ac agweddau at ddysgu] tra barnwyd bod 6 ysgol yn Dda ym maes arolygu 4 [gofal, cymorth ac arweiniad]. Barnwyd bod un ysgol yn 'anfoddhaol' ym maes arolygu 5 [arweinyddiaeth]. Ni ddyfarnwyd 'rhagorol' i'r un ysgol yn unrhyw un o'r meysydd arolygu.

Yn y proffil rhanbarthol ar hyn o bryd, mae 7 ysgol uwchradd mewn categori statudol, ac mae disgwyl y bydd un o'r rhain yn cael ei thynnu o'r categori pan fydd ail ymweliad tymor nesaf. Mewn 2 ysgol, ychydig o gynnydd a fu ac mae angen gwelliannau sylweddol pellach. Dim ond yn ddiweddar y gosodwyd tair ysgol arall mewn categori, ac mae Estyn wedi cadarnhau eu CGOA a'r cynllun cymorth ALI. Gwnaed cynnydd cyson yn y seithfed ysgol o dan arweiniad tîm arwain newydd. Mae'r swyddogion ALI perthnasol yn llwyr ymwybodol o'r pryderon a nodwyd uchod a chytunwyd ar gynlluniau cymorth manwl i bob ysgol a'u rhannu â


rhanddeiliaid allweddol.


Arbennig - Proffil cryf ar draws y meysydd arolygu, gydag un ysgol yn 'rhagorol' ym mhob maes arolygu.  Barnwyd ysgol arall yn Dda ym mhob maes arolygu, a rhoddwyd un arall yn 'adolygu gan Estyn' ar ôl derbyn 3 Da a 2 Digonol.

## CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL

**Pob ysgol**
Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 14.6% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 8.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi gostwng, o 2.4% yn 17/18 i 1.5% yn 18/19.  Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi, o 27.5% yn 16/17, 34.0% yn 17/18 i 41.7% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 18.8% yn 16/17, 14.9% yn 17/18 i 9.2% yn 18/19.   Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi gostwng, o 3.1% yn 17/18 i 1.9% yn 18/19.  Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi parhau i godi, o 19.7% yn 16/17 i 36.4% yn 18/19.








**Cynradd**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 11.0% yn 16/17, 8.0% yn 17/18 i 5.4% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi gostwng, o 1.4% yn 16/17 i 0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi'n sylweddol, o 28.2% yn 16/17, 35.5% yn 17/18 i 44.1% yn 18/19.


Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 15.2% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 6.6% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi gostwng, o 1.7% yn 17/18 i 0.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 20.2% yn 16/17, 30.7% yn 17/18 i 38.1% yn 18/19.




**Uwchradd**
Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi gostwng, o 36.4% yn 16/17, 35.2% yn 17/18 i 24.1% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi aros yn eithaf cyson, 9.1% yn 16/17 (5 ysgol), 11.1% (6 ysgol) yn 17/18 a 11.1% (6 ysgol) yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi, o 21.8% yn 16/17 i 24.1% yn 18/19.


Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi gostwng, o 37.0% yn 17/18 i 25.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi codi fymryn, o 13.0% yn 17/18 (7 ysgol) i 14.8% yn 18/19 (8 ysgol). Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 13.0% (7 ysgol) yn 17/18 i 24.1% (13 ysgol) yn 18/19.




**Arbennig**
Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 yr un fath, 11.1% (1 ysgol) ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 2016-17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategoreiddio fel Gradd D yn 17/18 nac yn 18/19. Mae’r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi parhau i godi, o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17 i 44.4% (4 ysgol) yn 17/18 i 55.6% (5 ysgol) yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 yr un fath, ar 11.1%, ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 16/17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategoreiddio yn goch yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd yr un fath, ar 44.4% (4 ysgol), ar ôl codi o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17.




## 3. DARPARIAETH

### Cwricwlwm ac Asesu

**Y Cyfnod Sylfaen**
Cyflwynwyd hyfforddiant a rhwydweithiau cyfnod sylfaen yn ddwyieithog i Uwch Dimau Arwain, athrawon a chymorthyddion ledled y rhanbarth ble rhannwyd negeseuon lleol,

rhanbarthol a chenedlaethol a lledaenu arfer dda. O ganlyniad, barnwyd y rhan fwyaf o ysgolion a arolygwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn Dda neu Ragorol ar gyfer darpariaeth yn y cyfnod sylfaen.

Mae sesiynau hyfforddiant wedi esblygu ble mae sesiynau dilynol yn arddangos ysgolion sydd wedi gweithredu'r negeseuon allweddol a rannwyd yn ystod hyfforddiant. Yn gyffredinol, mae mwyafrif yr ysgolion yn rhannu arfer dda yn ystod y sesiynau hyn. Trafodir ysgolion sy'n destun pryder gyda'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant perthnasol, a'u monitro.

Tynnwyd 7 ysgol allan o 8 a gefnogwyd dan dîm y Cyfnod Sylfaen allan o gategori, ac mae bron pob ysgol a nodwyd yn risg uchel wedi gwneud cynnydd disgwyliedig, neu well, yn erbyn meysydd ar gyfer gwelliant. Ni farnwyd yr un ysgol yn Anfoddhaol mewn safonau a darpariaeth; barnwyd y rhan fwyaf yn Dda neu Ragorol. Bu gostyngiad yn yr amrywiad yn y dysgu a'r addysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Cyflwynwyd hyfforddiant penodol i glystyrau sydd â blaenoriaethau cyffelyb, fel y nodwyd gan yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant. Mae gan yr holl arweinwyr ac athrawon a fynychodd hyfforddiant gwaelodlin well dealltwriaeth a system asesu fwy grymus.

Roedd gweithdai a chyfarfodydd rhwydwaith yn gydnaws â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, gan ganolbwyntio ar y pedwar diben a'r 12 egwyddor addysgegol, ac yn seiliedig ar ddull creadigol, cyfannol a thrawsgwricwlaidd, gan hybu datrys problemau drwy ddysgu drwy brofiad.

**Llythrennedd a Rhifedd**
Mae bron bob ysgol sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu yn nodi:

- effaith gadarnhaol sylweddol ar agweddau at ddysgu;
- agweddau at addysgeg bynciol a gwell gwybodaeth a dealltwriaeth gan staff; ac
- effaith gadarnhaol ar safonau cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr mewn ymresymu rhifyddol, rhifedd, mathemateg, llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Bellach, mae tystiolaeth a gynhyrchwyd gan aelodau'r rhaglenni datblygu sy'n dangos cynnydd disgyblion o ran deilliannau dysgwyr/data cynnydd, gwaith disgyblion, cynlluniau gwaith a strategaethau addysgu arfer effeithiol. Cedwir y dystiolaeth hon yn ganolog. Gellir rhannu hyn ag ysgolion ledled y rhanbarth er mwyn cefnogi a rhaeadru arfer effeithiol pan fo angen. Mae gan rai o'r athrawon hyn gapasiti bellach i rannu eu datblygiad ag ysgolion rhanbarthol eraill, a chynnig cefnogaeth iddynt weithredu datblygiadau cyffelyb yn eu lleoliadau.

Ym mhob maes datblygu, mae'r 12 egwyddor addysgegol, y Pedwar Diben a gofynion trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a'r FfCD yn nodweddion creiddiol. Adrodda llawer o ysgolion fod datblygu llafaredd yn eu hysgolion nid yn unig yn galluogi dysgwyr i gael mynediad i feysydd eraill y cwricwlwm yn fwy llwyddiannus ond ei fod hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar les, ymgysylltu ac agweddau at ddysgu. Bu llafaredd yn ffocws creiddiol y rhan fwyaf o'r rhaglenni datblygu llythrennedd a rhifedd uchod.

Arfer sy'n seiliedig ar ymholi fu ffocws y rhaglenni datblygu tymor canolig a thymor hir. O ganlyniad, mae gan ysgolion berchenogaeth ar y canfyddiadau, y dysgu a'r deilliannau. Mae hyn wedi cyfoethogi yn sylweddol y cynnydd mewn gwybodaeth bynciol ac arfer sy'n seiliedig ar effeithiolrwydd yn yr ysgolion hyn. Mae hyn o'i gyferbynnu â digwyddiadau hyfforddiant un-tro.

Mae athrawon bellach yn llawer mwy gwybodus am ddatblygiad llythrennedd a rhifedd, sut i ddylanwadu'r dysgu a'i symud yn ei flaen, arwain y pwnc yn effeithiol yn yr ysgol a chynnig

cymorth i ysgolion eraill gyda golwg ar eu taith ddatblygu eu hunain. Dengys ymweliadau ag ysgolion i Sicrhau Ansawdd bod bron pob ysgol wedi gwneud newidiadau cynaliadwy a bod addysgeg newydd yn cael ei rhaeadru a'i gwreiddio yn yr ysgol, yn aml fel rhan o weithgareddau datblygu eraill.

Mae ambell ysgol wedi datblygu cysylltiadau ag ysgolion eraill ac yn dechrau gweithio ar y cyd i ddatblygu ymhellach y cynllunio a'r addysgu yn eu hysgolion. Hwyluswyd hyn ymhellach hefyd gan yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Llythrennedd a Rhifedd er mwyn datblygu ymhellach ddiwylliant o gydweithio a gwneud gwelliannau'n fwy cynaliadwy i'r dyfodol.

**Cwricwlwm Cynradd**
Mae ysgolion sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglenni a ganlyn wedi gweithredu dulliau addysgegol effeithiol, sy'n hanfodol ar gyfer datblygu proffesiwn addysg o safon uchel, gan uwchsgilio athrawon fel ymarferwyr myfyriol a sicrhau eu bod yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd a chynllunio ar gyfer y meysydd dysgu a phrofiad.

- **Cynllunio Cwricwlwm Creadigol:** Carfan 1/2: Dengys ymweliadau SA â'r rhan fwyaf o ysgolion ym mhob ALI, adroddiadau effaith o bob ysgol a holiadur i athrawon effaith gadarnhaol yn agweddau athrawon at ddulliau cynllunio newydd y tu hwnt i gyfyngiadau'r cwricwlwm presennol, gan ymgorffori'r pedwar diben a'r 12 egwyddor addysgegol. Roedd pob ysgol wedi gweithredu egwyddorion Mantell yr Arbenigwr, ac adroddodd 91% eu bod yn fwy gwybodus am sut i'w ddefnyddio yn yr ysgol. Roedd ymchwilio cychwynnol i'r effaith ar agweddau dysgwyr at ddysgu yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o athrawon hefyd yn adrodd am godi cyrhaeddiad mewn ysgrifennu, llafaredd, rhifedd a'r FfCD yng nghyfnod allweddol 2, a hynny drwy brofiadau dysgu mwy cyffrous yn y dosbarth a chyfleoedd mwy perthnasol, bywyd go iawn a lleol ar gyfer rhifedd, llythrennedd a'r FfCD. Mae pob ysgol yn adrodd bod dysgwyr yn fwy annibynnol a bod disgyblion gallu cymysg yn fwy bodlon i weithio ar y cyd. Adrodda pob ysgol am gydweithio cadarnhaol rhwng ysgolion, ac y caiff hyn effaith gadarnhaol ar y deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr yn eu hysgolion.

- **Mantell yr Arbenigwr:** Mae mwy na 150 o athrawon wedi mynychu hyfforddiant MyA o dan arweiniad GwE er mwyn datblygu sgiliau a hyder yn y dull addysgegol hwn. Datgan 97% bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol ac y byddant yn defnyddio'r dull yn yr ysgol. Roedd 86% yn cytuno eu bod yn fwy gwybodus am sut i ddefnyddio MyA, ac mae o leiaf dri chlwstwr eisoes wedi cadw lle ar sesiynau dilynol.

**Cwricwlwm Uwchradd**
Mae saith rhwydwaith cwricwlwm yn cyfarfod yn gyson ar draws y rhanbarth sy'n sicrhau bod arweinwyr ysgolion yn derbyn diweddariadau ac arweiniad cyson ar gynllunio cwricwlwm ac atebolrwydd.

Mae pob grŵp ym mhob awdurdod wedi derbyn cefnogaeth ac arweiniad ar Cwricwlwm i Gymru, sy'n sicrhau bod gwybodaeth arweinwyr wedi cryfhau a miniogi.

Am y tro cyntaf, cytunwyd i gynnal cyfarfod rhanbarthol cwricwlwm fydd yn dod â holl arweinwyr cwricwlaidd y rhanbarth at ei gilydd i gydweithio ac ymgysylltu.

Mae'r Prosiect PISA a hyrwyddo'r agenda Sgiliau wedi bod yn llwyddiant mawr yn GwE, ac wedi cael dylanwad ar yr agenda Genedlaethol.

Rhoddir cefnogaeth benodol i'r ysgolion mwyaf bregus ar gynllunio cwricwlwm ac amserlennu.

**Ieithoedd Tramor Modern (ITM)**
Mae'r tîm Dyfodol Byd-eang ac adrannau ITM y rhanbarth wedi cydweithio a gweithio'n effeithiol gydag amrywiol bartneriaid megis Llwybrau at Ieithoedd, Mentora Myfyrwyr, y British Council, Goethe Institute, Confucius Institute, Institut Français, Prifysgol Bangor ac ati er mwyn hybu ieithoedd yn y sector cynradd a'r sector uwchradd ar hyd a lled y consortiwm.

O ganlyniad i fentora manwl gan y tîm Dyfodol Byd-eang a hybu'r mentrau sydd ar gael yn effeithiol, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr adrannau ITM sy'n cymryd rhan yn yr amrywiol weithgareddau i hybu ieithoedd. Eleni, mae pob ysgol wedi cymryd rhan mewn un neu ragor o'r gweithgareddau a gynigir, sy'n welliant sylweddol ar y blynyddoedd a fu, yn enwedig yn nwyrain y consortiwm.

Gwahoddodd 71% o ysgolion GwE Tim Penn a Llysgenhadon Iaith o Brifysgol Bangor i wneud cyflwyniad ar yrfaoedd. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan athrawon a myfyrwyr. Yn dilyn y mewnbwn hwn, bu cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio ITM mewn nifer o ysgolion.

Bu cynnydd cyson yn nifer yr adrannau ITM sy'n cymryd mewn hyfforddi disgyblion i fod yn Lysgenhadon Iaith (disgyblion Blwyddyn 8 a 9) ac yn nifer y disgyblion a hyfforddir i hybu ieithoedd yn eu hysgolion er mwyn denu diddordeb a chynyddu'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd yng nghyfnod allweddol 4.

Cafwyd llwyddiant wrth hybu dysgu ac addysgu ieithoedd rhyngwladol yn y sector cynradd:

- Peilot: Mae 22 o ysgolion cynradd ar hyd a lled y consortiwm yn rhan o'r peilot. Maent wrthi'n datblygu modelau darparu posib yn eu hysgolion.
- Bu cydweithio effeithiol â nifer o bartneriaid megis Power Language, Institut Français, Prifysgol Bangor a'r Brifysgol Agored yn gymorth i hybu a chyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn y cwricwlwm cynradd mewn mwy na 30 ysgol gynradd yn y rhanbarth.
- Bu tair adran ITM a'u hysgolion sy'n bwydo yn cydweithio'n effeithiol ac yn arloesol, ac yn sgil hyn cyflwynwyd ieithoedd rhyngwladol yn yr ysgolion hynny gyda golwg ar barhau i gyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn fwy annibynnol yn y dyfodol.

Mae'r tîm yn gweithio'n llwyddiannus i sicrhau cydlyniad, eglurder ac ymrwymiad cyffredin i wireddu'r weledigaeth ar gyfer addysgeg, dysgwyr, cyd-weithwyr a'r gymuned ehangach. Mae gan y tîm adnabyddiaeth dda iawn o adrannau ITM y rhanbarth, a gall dargedu athrawon ac adrannau unigol yn effeithiol i wella neu i ddatblygu'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon a phenaethiaid adrannau.

Mae'r tîm wedi darparu cyfleoedd rheolaidd i athrawon ymestyn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o addysgu, dysgu a chynllunio ITM yn effeithiol. Cynlluniwyd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn ofalus er mwyn ymateb i argymhelliad Estyn ar gyfer ITM ac i ddarparu HMS o safon uchel.

**Pynciau Craidd**
Mae gan ysgolion uwchradd ledled y rhanbarth fynediad i gymorth arbenigol ym mhob pwnc craidd. Mae strategaeth gynhwysfawr ar waith ar gyfer gwella safonau mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ar draws y rhanbarth. Rhoddwyd rhaglen gymorth ar waith ar gyfer y pynciau craidd mewn ysgolion uwchradd, a hynny drwy gyfrwng rhwydweithiau lleol i Benaethiaid Adran. Defnyddiwyd y system 'Don' yn effeithiol i adolygu lefelau cymorth. Mae data lefel eitem gan bob ysgol wedi'i goladu a'i ddefnyddio i lywio'r cynllunio ar lefel adran. Dyma'r prif flaenoriaethau ar gyfer 2018-19.

**Gwyddoniaeth**

- Y Rhaglen Gymorth Gwyddoniaeth - mae 63% o adrannau gwyddoniaeth wedi cael cymorth unigol gan dîm GwE a thrwy gymorth a gomisiynwyd. Croesawyd hyn gan Uwch Dimau Arwain a Phenaethiaid Gwyddoniaeth. Mae arweinyddiaeth wedi gwella mewn adrannau, a chynllunio cwricwlwm, a gwelir yr effaith ar ddeilliannau disgyblion.
- Cyfarfodydd rhwydwaith, cymorth pwnc a chydweithio - mynychodd 78% o ysgolion y cyfarfod rhwydwaith i Benaethiaid Gwyddoniaeth yn ystod tymor yr hydref. Mae hyn wedi gwella eu dealltwriaeth o'r newidiadau i ddangosyddion perfformiad CA4 ac o'r cwricwlwm newydd i Gymru. Gwelwyd hefyd fwy o gydweithio ar draws ysgolion/ALl/y rhanbarth a gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o fanylebau CA4 a CA5. Mae'n cynnig cyfleoedd i athrawon pwnc rwydweithio, cyfoethogi eu dealltwriaeth o fanylebau TGAU a Safon Uwch, rhannu arferion gorau a chreu adnoddau ar y cyd.
- Rhaglen ysgolion Hwb - mae 54% o ysgolion wedi cael cymorth gan y rhaglen ysgolion Hwb. Rhoddir sylw penodol i flaenoriaethau datblygu ysgol/adran/athrawon unigol. Bu'r digwyddiadau dysgu proffesiynol a gyflwynwyd drwy'r rhaglen yn boblogaidd iawn, gyda cheisiadau wedi hynny am ymweliadau dilynol.
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n benodol i Wyddoniaeth (DPP) - mae 41% o ysgolion wedi mynychu un neu fwy o ddigwyddiadau DPP y rhaglen dysgu proffesiynol (heb gynnwys y rhaglen 'Datblygu Arweinwyr'). Gofynnwyd i bawb raeadru'r wybodaeth yn eu hadrannau (rhedeg DPP mewnol) a llunio cynlluniau gweithredu dilynol unigol.
- Arweinyddiaeth - cofrestrodd 16 o athrawon ar y DPP gwyddoniaeth benodol 'Datblygu Arweinwyr'. Mae'r rhaglen yn datblygu eu dealltwriaeth o rôl yr arweinydd canol wrth arwain tîm llwyddiannus, ac yn gwella eu harfer a'u heffeithiolrwydd. Maent wedi gallu arddangos effaith y strategaethau a ddefnyddiwyd a chynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (rhaglen 5-diwrnod sy'n targedu meysydd allweddol arweinyddiaeth ganol lwyddiannus).
- Asesu ac olrhain - mae tîm data GwE wedi cynhyrchu system olrhain asesu gynhwysfawr ar gyfer CA4, a gyflwynwyd yn ystod y fforwm i Benaethiaid Gwyddoniaeth yn yr hydref. Mae'r system yn galluogi ysgolion i ddadansoddi perfformiad disgyblion ar draws grwpiau athrawon, llwybrau TGAU ac adnabod tanberfformiad. Mae hyn yn galluogi adrannau i adnabod grwpiau ffocws a darparu ymyrraeth wedi'i thargedu ar y daith tuag at arholiadau.

**Mathemateg**

- Sefydlwyd Fforwm Penaethiaid Mathemateg ar draws y rhanbarth. Dyma ffocws y fforymau: datblygu addysgeg adrannol, gwaith dilynol gydag adrannau er mwyn datblygu cydweithio rhanbarthol, datblygu gwybodaeth y Penaethiaid adran am Cwricwlwm i Gymru, cyflwyniadau gan yr ysgolion Arloesi o fewn y rhanbarth a datblygu olrhain adrannol. Mae ymgysylltiad athrawon, cydlynwyr rhifedd a chydlynwyr Safon Uwch yn dda yn y fforymau.
- Darparwyd cefnogaeth effeithiol i ysgolion haen 1 Mathemateg a Rhifedd. Prif ffocws y cymorth yw'r addysgeg yn CA4 a'r effaith ar ddysgwyr sy'n wynebu arholiadau yn fuan. Mae'r gefnogaeth wedi gwella gallu'r athrawon o ran cynllunio ac addysgeg gyda grwpiau arholiad.
- Cynhaliwyd dyddiau agored adrannol er mwyn rhannu'r arferion llwyddiannus.
- Sefydlwyd Fforwm a chyfarfodydd Rhifedd rhanbarthol. Rhoddwyd ffocws ar ddatblygu arweinyddiaeth, datblygu dealltwriaeth yr ysgolion o'r newidiadau i'r profion gweithdrefnol, datblygu dealltwriaeth o ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm a dulliau ymyrraeth.
- Cynhaliwyd prosiect cydweithio i ymchwilio i ddulliau o ddatblygu sgiliau rhesymu yn CA3.
- Gwnaed gwaith sylweddol i ddatblygu addysgeg yng nghyfnod allweddol 3. Roedd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd â

chydlynwyr CA3. Bu ffocws ar weithio gydag ysgolion peilot ar ddod o hyd i arferion llwyddiannus yn y rhanbarth, gyda'r nod o rannu'r model hwn yn rhanbarthol yn nhymor yr hydref. Mae datblygiadau yn mynd rhagddynt yn yr ysgolion penodol hyn. Mae'r effaith ar y dysgwyr eto i'w mesur, ond mae llais y dysgwyr yn gadarnhaol i'r newid mewn addysgeg.

- Gwneir defnydd cynyddol o rwydwaith Mathemateg GwE ar Hwb i rannu adnoddau ac arferion da. Modelir sesiynau (e.e. ddatblygu technegau arholiad) mewn ysgolion er mwyn uwchsgilio'r staff a chynorthwyo'r disgyblion i wella eu dysgu.

**Cymraeg**

- Mae defnyddio'r system 'Don' i adnabod lefelau addas o gefnogaeth i ysgolion unigol wedi sicrhau bod yr ysgolion priodol yn derbyn cefnogaeth. Yn yr ysgolion hynny, mae'r Penaethiaid Adran wedi derbyn pwyntiau gweithredu miniog ar G6 er mwyn rhoi cyfeiriad cadarn i allu sicrhau gwelliant. Drwy graffu ar lyfrau, holi barn ac arsylwi gwersi gwelwyd bod ymateb addas i'r pwyntiau gweithredu yn yr ysgolion hynny.
- Rhoddwyd cefnogaeth ychwanegol i ysgolion mewn meysydd penodol, megis gwaith cefnogi i baratoi at arolwg neu'n benodol i edrych ar safonau Bl.11.
- Sefydlwyd rhwydwaith Hwb newydd 'Cymraeg GwE' sydd wedi bod yn llwyddiannus, gyda dros 140 yn aelodau ac adnoddau newydd o ansawdd uchel yn cael eu hychwanegu arno'n gyson.
- Mae presenoldeb yn y cyfarfodydd rhwydwaith wedi bod yn dda. Rhennir arfer dda ac mae'r deunyddiau ar gael yn ddigidol.
- Mae cyrsiau Cynnig GwE wedi bod yn llwyddiannus gyda bron bob un ysgol wedi mynychu. Roedd 100% yn cytuno bod y cwrs yn werthfawr ac y byddai'r wybodaeth yn cael ei rhaeadru yn eu hadrannau.

**Saesneg**

- Lluniwyd adnoddau i gefnogi addysgu ysgrifennu a'u rhannu'n rhanbarthol - dengys tystiolaeth mewn craffu llyfrau gyrhaeddiad uwch a gwelliant sylweddol mewn achosion ble defnyddiwyd yr adnoddau. Gwella'r dysgu a'r addysgu oedd ffocws y cyfarfod rhwydwaith rhanbarthol yn ystod tymor yr haf (cynrychiolaeth o bob adran Saesneg).
- Canlyniad cymorth dwys, yn ogystal â chynhyrchu adnoddau strwythuredig ar gyfer ysgolion ar gyflwyno darpariaeth Llafaredd, yw adrannau'n adrodd am gynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n cyrraedd Band 4+ yn yr asesiad di-arholiad o'i gymharu â 2018.
- Aed i'r afael â gwendidau mewn perfformiad arholiadau drwy ddatblygu adnoddau addysgu o safon uchel a fodelir ar Hwb. Cyflwynwyd hyfforddiant safoni ar Uned 2 i bob Pennaeth Saesneg mewn cyfarfodydd Fforwm, a'u cynnig fel sesiynau gwyll i athrawon dosbarth.
- Datblygwyd system olrhain ranbarthol, ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ei defnyddio'n effeithiol. ae hyn wedi caniatáu i athrawon olrhain yn llawn ar lefel dosbarth, adran a rhanbarth gan eu galluogi i adnabod anghenion unigol yn syth.
- Mae rhwydweithiau lleol a rhanbarthol i Benaethiaid Adran wedi canolbwyntio ar wella olrhain ac asesu; arweinyddiaeth ganol; dysgu ac addysgu; cydweithio ac adolygu gan gymheiriaid.
- Bu gwaith gyda Phenaethiaid Adran a dargedwyd ar wella olrhain a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr hPYD ar A*-C yn effeithiol.
- Defnyddiwyd yn llwyddiannus arbenigedd a gomisiynwyd i ddatblygu Rhaglen Ymyrraeth Llythrennedd, gyda'r nod o wella sgiliau llythrennedd dysgwyr hPYD a dargedwyd.
- Bu ffocws cynyddol ar wella ansawdd arweinyddiaeth mewn adrannau Saesneg mewn ysgolion penodol.

**Ôl-16**
Mae'r cymorth Ôl-16 ar gyfer ysgolion wedi cryfhau. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu ar draws y rhanbarth i edrych ar y ddarpariaeth ym mhob ardal er mwyn sicrhau parhad ac ehangder yn y cyfnod ôl-16.


Mae sgiliau penaethiaid y chweched dosbarth yn parhau i gael eu datblygu drwy gynllunio rhanbarthol. Mae gwaith da yn parhau ar draws y rhanbarth, yn benodol o ran cwrs datblygu arweinyddiaeth y chweched dosbarth er mwyn sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau, dealltwriaeth o gyd-destunau cenedlaethol a lleol a'r adnoddau i gefnogi disgyblion tuag at y deilliannau gorau.

Cynhaliwyd cynhadledd chweched dosbarth lwyddiannus eto gyda chyflwyniad rhagorol gan Martin Griffin ar sgiliau dysgu annibynnol.

Mae'r rhwydweithiau pwnc a sefydlwyd ar draws 8 pwnc yn fforymau defnyddiol ar gyfer rhannu syniadau ac arferion.

Mae hyfforddiant ALPS wedi cael ei ledaenu ar draws ysgolion gyda'r defnydd o'r system yn cynyddu ar draws ysgolion.

## Arweinyddiaeth
Mae GwE yn darparu rhaglenni datblygu cyson, teg ac o ansawdd uchel ar bob cam o'r llwybr datblygu dysgu proffesiynol mewn arweinyddiaeth, o arweinyddiaeth ganol i Benaethiaid profiadol. Mae'r rhaglenni hyn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu eu hysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu fel y gallant "ymateb yn gynt i amgylcheddau sy'n newid, croesawu arloesi mewn trefniadaeth fewnol ac, yn y pen draw, gwella deilliannau i fyfyrwyr". Mae'r rhaglenni yn sicrhau datblygu arweinyddiaeth broffesiynol ar bob cam o yrfa arweinydd er mwyn sicrhau arfer tra effeithiol parhaus, a hynny yng nghyd-destun y safonau arweinyddiaeth ffurfiol. Mae'r rhaglenni datblygu yn hybu agweddau ar arweinyddiaeth gydweithredol, gydag ymarferwyr effeithiol o ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn cyd-gyflwyno sesiynau gyda staff GwE. Mae hyn yn datblygu ymhellach y syniad o ddatblygu system sy'n hunan wella a datblygu ymgysylltiad cymheiriaid ar draws gogledd Cymru. Mae sefydlu'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o GwE a'r chwe awdurdod lleol, yn sicrhau yr adnabyddir anghenion a bod rhaglenni yn bodloni anghenion y proffesiwn.




Trwy gydol y rhaglenni, mae GwE wedi sicrhau y diweddarir uwch arweinwyr ar ddatblygiadau allweddol y daith ddiwygio. Mae llwybr datblygu arweinyddiaeth clir ar gyfer uwch arweinwyr y dyfodol ac, o ganlyniad, mae'r rhanbarth yn datblygu arweinwyr cymwys a medrus. Gwelir cynnydd yn nifer y ceisiadau o ansawdd uchel a gyflwynir ar gyfer swyddi arwain ym mhob sector yn y rhanbarth.

Anogwyd arweinwyr ysgolion i gymryd rhan mewn cydweithio ysgol-i-ysgol a phrosiectau yn seiliedig ar ymholi. Mae arweinwyr canol ac uwch arweinwyr wedi'u huwchsgilio i arwain yn fwy effeithiol ar weithredu Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgolion. Mae gan arweinwyr ysgolion fwy o ymwybyddiaeth o'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae gan GwE ran allweddol wrth gyfathrebu, hybu a chydlynu amrywiaeth o raglenni sy'n bodloni anghenion staff ar amrywiol lefelau. Dyma'r rhaglenni a gynigir:

- **Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG)** - Hyd yma, mae dros 450 o arweinwyr canol ledled gogledd Cymru wedi elwa ar fynychu'r rhaglen traws sector hon. Bu YCG yn rhagweithiol o ran annog eu hysgolion cyswllt i adnabod ymgeiswyr posib ar gyfer y RhDAG. Mae Grŵp Arweinyddiaeth GwE yn monitro derbyniadau i'r rhaglen. Eleni, targedwyd ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gan y bu llai o geisiadau o'r sectorau hyn ar y dechrau. Erbyn canol mis Medi, roedd 61 ymgeisydd cyfrwng Saesneg a 23 ymgeisydd cyfrwng Cymraeg. Roedd Grwp Arweinyddiaeth GwE yn hybu YCG cyswllt i fonitro aelodau'r rhaglen. Mae'r adborth gan aelodau yn hynod o gadarnhaol. Rhennir yr arfarniadau â'r ALI yn y cyfarfodydd arweinyddiaeth rhanbarthol. Bydd yr hwylusydd hefyd yn darparu adborth ar y rhaglen.

  *"... dengys y canlyniadau bod y RhDAG yn rhaglen datblygu arweinyddiaeth hynod effeithiol, gaiff effaith gadarnhaol ar yr athrawon a'u hysgolion..."*

  Adroddiad Arfarniad o Effaith gan yr Ysgol Chwaraeon, Iechyd a Gwyddorau Ymarfer Corff Prifysgol Bangor


  Cynigiwyd dwy raglen ychwanegol hefyd i arweinwyr canol:
  - ar gyfer darpar arweinwyr canol a'r rheiny sy'n newydd yn y rôl;
  - gwella arfer arweinwyr canol mewn swydd.

  Nid yw'r rhaglenni wedi'u cwblhau eto, ond mae adborth cychwynnol yn gadarnhaol.

- **RhDAG Llythrennedd a Rhifedd -** Roedd aelodau yn cymryd rhan mewn prosiectau yn seiliedig ar ymholi er mwyn datblygu addysgeg. Mae arfer fyfyriol a mentora/hyfforddiant wedi codi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae athrawon dosbarth wedi'u huwchsgilio gyda chyngor ymarferol ar sut i arwain y cwricwlwm yn effeithiol a sut i sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cael eu herio yn briodol.
  Llythrennedd: Adroddodd bob aelod am welliant cryf yn eu gwybodaeth am y pwnc ac am addysgeg effeithiol yn eu dosbarthiadau. Mae bob un yn gweithredu eu sgiliau arwain, gan arwain ar welliant ysgol gyfan mewn llafaredd a darllen. Adroddodd bob arweinydd am effaith gadarnhaol gychwynnol ar wybodaeth a dealltwriaeth athrawon ar draws yr ysgol, a gwell addysgeg yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau eraill yr ysgol.
  Rhifedd: Adroddodd bob aelod am effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth am y pwnc ac am addysgeg effeithiol, ar eu parodrwydd ar gyfer y cwricwlwm newydd a'u dealltwriaeth o ddisgwyliadau uchel yn eu pwnc.
  Mae bob aelod wedi datblygu eu sgiliau arwain, gan fyfyrio ar eu cryfderau a'u gwendidau ar gyfer gyrru gwelliant, a'u harfarnu.
  Mae bob un wedi canolbwyntio ar feysydd penodol i'w datblygu sy'n benodol i anghenion eu lleoliad, gan arwain ar welliant ysgol gyfan mewn ymresymu rhifyddol a rhifedd. Adroddodd bob arweinydd am effaith gadarnhaol gychwynnol ar wybodaeth a dealltwriaeth athrawon ar draws yr ysgol, gan ddylanwadu ar addysgeg yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau eraill yr ysgol.

- **Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (RhDDB)** - Yn ystod 2017/2018 a 2019/2020, mae 119 darpar bennaeth yng ngogledd Cymru wedi elwa ar fynychu'r rhaglen draws sector hon. Mynychodd 56 ymgeisydd garfan 1 a 2 y rhaglen ddatblygu (30 cyfrwng Cymraeg a 26 cyfrwng Saesneg). Dengys arfarniadau bod yr holl aelodau wedi caffael dealltwriaeth ddyfnach o'r ystod o sgiliau arwain sydd eu hangen arnynt i fod yn Bennaeth effeithiol. Mae'r adborth gan aelodau yn hynod o gadarnhaol. Rhennir yr arfarniadau â'r awdurdodau lleol yn y cyfarfodydd arweinyddiaeth rhanbarthol. Bydd yr hwyluswyr hefyd yn darparu adborth ar y rhaglen. Ar hyn o bryd, mae 63 ymgeisydd yn mynychu carfan 3 a 4 y rhaglen (30 cyfrwng Cymraeg a 33 cyfrwng Saesneg).

- **Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)** - Yn y tair blynedd ddiwethaf, derbyniwyd 150 unigolyn ar y rhaglen. Mae 69 ymarferydd wedi'u derbyn eleni (o'i gymharu â 30 yn 2016-2017 a 51 yn 2017 –2018) o'r sectorau cynradd, uwchradd, arbennig, UauCD a staff GwE. Cychwynnodd Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol ym mis Medi. Cynhaliwyd Cynhadledd Genedlaethol yn Abertawe, a Syr John Jones oedd y siaradwr gwadd ysbrydoledig. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd diwrnod datblygu rhanbarthol ychwanegol yn canolbwyntio ar arddulliau arwain a gwytnwch. Erbyn canol mis Hydref, roedd hyfforddwr arweinyddiaeth wedi'i neilltuo i bob ymgeisydd, gan ganolbwyntio ar ddatblygu eu tasg arweinyddiaeth a pharatoi ar gyfer y Ganolfan Asesu. Roedd bron yr holl adborth ffurfiol ar y dyddiau datblygu yn gadarnhaol, a bron pob ymgeisydd yn cadarnhau gwybodaeth ddyfnach o'r angen i ddefnyddio arddulliau arwain gwahanol mewn gwahanol gyd-destunau a sefyllfaoedd. Mae trylwyredd y Ganolfan Asesu yn sicrhau mai dim ond yr ymgeiswyr sydd wedi dangos eu bod yn barod ar gyfer prifathrawiaeth sy'n ennill y cymhwyser. Mae cymedroli asesiadau yn sicrhau gwell cysondeb. Mae mwy o ymgeiswyr nag yn y gorffennol wedi dangos eu bod yn barod ar gyfer Prifathrawiaeth, a hynny yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Arweinyddiaeth.




- **Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro** - Cychwynnodd Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol newydd ym mis Tachwedd, a gymeradwywyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (NAEL), gyda 46 unigolyn o GwE yn mynychu. Darparodd bob awdurdod lleol fanylion ynghylch Penaethiaid newydd a Phenaethiaid dros dro y rhanbarth. Bellach, mae cronfa ddata ganolog o'r holl Benaethiaid newydd a Phenaethiaid dros dro. Erbyn canol mis Hydref, roedd hyfforddwr arweinyddiaeth wedi'i neilltuo i bob Pennaeth newydd a Phennaeth dros dro. Cynhaliwyd Cynhadledd Genedlaethol yn Abertawe, a Syr John Jones oedd y siaradwr gwadd ysbrydoledig. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd dau ddiwrnod datblygu rhanbarthol ychwanegol. Ffocws y rhain oedd datblygu arddulliau arwain, gwytnwch, gweledigaeth, addysgeg a diwylliant ymholi, gyda mewnbwn penodol ar ymchwil gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'r adborth ar ffurflenni arfarnu yn gyson gadarnhaol. Datblygodd lawer o'r Penaethiaid rwydweithiau effeithiol, ac roeddent yn gweld gwerth i'r cyfle i fyfyrio ar eu harddulliau arwain.

- **Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol** - Mae Penaethiaid ar hyd a lled y rhanbarth wedi mynychu cynadleddau a gweithdai i godi ymwybyddiaeth o flaenoriaethau cenedlaethol a datblygu eu harbenigedd mewn arweinyddiaeth, er enghraifft, cynhaliwyd cynhadledd ar ddysgu proffesiynol ym Mhrifysgol Bangor ym mis Tachwedd i Benaethiaid y rhanbarth. Cynhaliwyd cynhadledd gan GwE, Llywodraeth Cymru a CaBan i baratoi Penaethiaid ar gyfer y diwygio cwricwlwm. Mae Penaethiaid wedi derbyn gwybodaeth am flaenoriaethau cenedlaethol ac am yr arferion gorau ar hyn o bryd ym maes addysgeg a diwygio cwricwlwm, er enghraifft, diwygio ADY ac arloesi cwricwlwm. Gwahoddwyd Penaethiaid y rhanbarth i fynychu cyflwyniadau gan GwE ar Cwricwlwm i Gymru a'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Fel rhan o'r rhaglenni

datblygu arweinyddiaeth, cafodd Penaethiaid newydd a Phenaethiaid dros dro gyflwyniadau ar arferion llwyddiannus. Cynlluniwyd rhaglen genedlaethol newydd yn ddiweddar i ddatblygu Penaethiaid profiadol, a'i chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (NAEL). Bydd y rhaglen hon yn cychwyn ym mis Medi 2019.

Trwy gydweithio â Phrifysgol Bangor a'r Athrofa Addysg, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant(UWTSD), mae'r consortia wedi sicrhau bod cyfle i ymarferwyr sy'n mynychu rhaglenni arweinyddiaeth, o'r rhai ar gyfer arweinwyr canol i'r rhai ar gyfer Penaethiaid profiadol, ennill achrediad penodol. Mae'r rhaglenni hyn wedi'u hachredu ar y cyd gan y ddwy Brifysgol, a gallant arwain at gymwysterau lefel uwch, megis graddau Meistr a Doethuriaethau. Dewis yr ymarferwyr yw dilyn y llwybr achredu ai peidio.

Ar ben yr agweddau ar arweinyddiaeth ffurfiol, rhoddwyd sylw penodol i ddatblygu llwybr dysgu proffesiynol i gymorthyddion dysgu, y 'Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Dysgu' (LIDCD).

- **Y Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Dysgu (LIDCD)** - Mae mwy na 1000 o gymorthyddion dysgu ar hyd a lled y rhanbarth wedi cymryd rhan yn y rhaglenni rhwng mis Medi 2018 a mis Mawrth 2019. Roedd mwy na 98% o'r adborth arfarnu yn gadarnhaol, a mynegodd dros 50% ddiddordeb mewn Dysgu Proffesiynol pellach yn y rhanbarth. Gwelwyd cynnydd o 25% yn y niferoedd diweddaraf am garfan newydd. Dengys arfarniadau ddiddordeb cynyddol mewn dilyn y rhaglen CALU. Hyfforddwyd 18 hyfforddwr newydd yn y rhanbarth. Trwy ddarparu model hyfforddi cenedlaethol ar gyfer cymorthyddion dysgu, mae GwE yn sicrhau tegwch a datblygiad proffesiynol o safon uchel i bawb. Mae'r hyfforddiant CALU cenedlaethol wedi cefnogi teithiau hunan wella ysgolion drwy gydnabod rolau staff cymorth yn fwy ffurfiol. Mae'r cymorthyddion dysgu wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd dysgu proffesiynol rhanbarthol a chenedlaethol a ddarperir gan GwE. Mae'r datblygiad hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion proffesiynol mewn ysgolion, gan gynnwys agweddau ar wella ysgol, dysgu ac addysgu, ymyraethau a gwerthfawrogi rolau. Cyflwynwyd tystiolaeth drwy arfarniadau ac adborth parhaus drwy gydol y rhaglenni.

**Cymorth i Lywodraethwyr**

Mae pob llywodraethwr sydd wedi derbyn arweiniad yn eu hysgolion gan Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant unigol ac/neu mewn hyfforddiant dalgylchol wedi derbyn arweiniad o ansawdd uchel gan arbenigwyr yn eu maes. O'r herwydd, mae llywodraethwyr mewn gwell sefyllfa i fod yn Ffrind Beirniadol yn eu hysgolion.

Mae’r Awdurdodau lleol wedi derbyn arlwy o hyfforddiant (gweler isod) er mwyn cefnogi’r llywodraethwyr mewn agweddau penodol ac/neu gyda'r daith ddiwygio.

Bellach, mae rhaglen o hyfforddiant wedi'i chytuno â'r 6 ALl o ran yr arweiniad sydd ei angen i uwchsgilio llywodraethwyr a'u galluogi i wynebu’r daith ddiwygio yn hyderus. Mae hyn yn cynnwys:

- Cwricwlwm i Gymru
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Y Gymraeg
- Y Cyfnod Sylfaen
- Fframwaith Cymhwysedd Digidol
- Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu

Mae rhyddid i Awdurdodau Lleol unigol adnabod anghenion hyfforddi ar gyfer eu llywodraethwyr, a bydd lle iddynt dderbyn hyfforddiant unwaith y tymor ar unrhyw un o'r agweddau uchod, a hynny mewn dau leoliad yn y sir.

**Ysgolion bach**
Cynhaliwyd cynhadledd i Benaethiaid ysgolion ac roedd cynrychiolaeth o 50 ysgol yn bresennol. Rhoddodd Penaethiaid o ysgolion tebyg gyflwyniadau, gyda'r effaith o ddyfnhau eu profiadau cyflwyno a chreu pwl ar gyfer gweithgareddau cyffelyb.

Roedd bron bob un holiadur i Benaethiaid yn adborth da, neu well. Yn ôl yr ymatebion, un o'r prif effeithiau oedd cyfle i Benaethiaid ysgolion tebyg gyfarfod a chreu rhwydweithiau. Mae nifer o'r rhwydweithiau a grëwyd ar y diwrnod wedi parhau, gydag ysgolion yn rhannu profiadau. Cafwyd adborth da hefyd i gyflwyniadau am arolygiadau Estyn i sefyllfa ysgol fach, gan arwain at Benaethiaid yn adrodd eu bod yn fwy parod ar gyfer arolygiad.

Roedd Penaethiaid ysgolion llai yn falch o'r cyfle i gyfarfod a thrafod ffurf a rhwystrau'r daith ddiwygio, a hynny mewn sefyllfa ble mae'r Pennaeth hefyd yn addysgu.

## Addysgu

**Dysgu ac Addysgu**
Mae nifer o brosiectau cyffrous a phellgyrhaeddol wedi'u gweithredu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fydd gobeithio yn cael dylanwad sylweddol ar ansawdd yr addysgu ym mhob ysgol ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i athrawon gogledd Cymru gydweithio, rhannu eu harbenigeddau a'u hangerdd am addysgu, ac i wneud cyfeillion proffesiynol newydd. Mae hefyd yn galluogi holl athrawon y rhanbarth i ddatblygu a dyfnhau eu sgiliau addysgu, a'u dealltwriaeth o egwyddorion asesu ffurfiannol ac addysgeg ragorol. Bydd hyn, yn ei dro, yn datblygu ein disgyblion i fod y dysgwyr annibynnol a hyderus y maent yn haeddu bod.

<u>Prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol</u>
Mae'r prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol (GwE a Shirley Clarke) yn weithredol yn y rhanbarth er Hydref 2017. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n effeithiol a'i weithredu mewn patrwm o haenau, gan roi egwyddorion addysgegol ar waith mewn dosbarthiadau ar sail ymchwil cadarn.

Ymrwymiad ysgolion ar draws y rhanbarth i'r prosiect:
- Haen 1: 27 ysgol 54 o athrawon
- Haen 2: 193 ysgol 386 o athrawon
- Cyfanswm: 220 ysgol 440 o athrawon

Gwelir felly bod effaith gweithgarwch y prosiect yn cyrraedd o leiaf 11,000 o ddisgyblion ar draws y rhanbarth (yn seiliedig ar bob athro yn addysgu dosbarth o 25 o ddisgyblion, ar gyfartaledd)

Mae gwaith ymchwil gweithredol sylweddol yn digwydd mewn dosbarthiadau ar draws y rhanbarth gyda chynnydd da neu dda iawn i'w weld yn erbyn y deilliannau a ganlyn:

- codi safonau addysgu a lleihau amrywiad ysgolion mewn safonau addysgu ar draws y rhanbarth
- rhoi pwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil gweithredol
- sicrhau defnydd da neu well o strategaethau asesu ffurfiannol yn holl ysgolion y rhanbarth er mwyn codi safonau
- datblygu ysgolion fel sefydliadau dysgu ac sy'n cynnal ymchwil gweithredu effeithiol.
- datblygu cynaliadwyedd ysgolion i hunan wella ac i gefnogi rhwydweithio ysgol i ysgol

- ymateb i agenda genedlaethol lleihau baich gwaith athrawon drwy ddefnyddio strategaethau Asesu Ffurfiannol yn effeithiol
- mae Barnau Estyn ar MA2 a MA3 yn ysgolion cynradd y prosiect eleni yn nodi Da o leiaf, gyda barnau a naratif yn cyfeirio at ragoriaethau.

Mae ymateb yr athrawon yn gadarnhaol iawn, a chaiff gwaith y prosiect effaith gadarnhaol nid yn unig ar ansawdd yr addysgu mewn dosbarthiadau ond hefyd ar safonau lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Hyfforddiant Adborth a Chwestiynu
Cyflwynwyd 3 sesiwn hanner diwrnod 'Gweithio'n ddoethach, nid caletach' ar draws y rhanbarth. Roedd y ffocws ar adborth a chwestiynu ac agweddau ar yr agenda lleihau baich genedlaethol.

Mae'r hyfforddiant wedi dyfnhau dealltwriaeth athrawon o'r agenda lleihau baich gwaith, gyda'r adborth holiadur i athrawon yn hynod gadarnhaol.

Gweithredu rhaglen 'Outstanding Teacher Programme – Olevi' (OTP)' o dan arweiniad Ysgol Y Creuddyn
Mae 14 o athrawon o 4 Ysgol Uwchradd wedi cwblhau'r rhaglen OTP. Cafwyd adborth cadarnhaol i'r hyfforddiant a'i effaith ar addysgu yn yr ysgolion. Mae'r rhaglen yn datblygu unigolion i allu arwain ar ddatblygu addysgu yn eu hysgolion, a thrwy hynny:

- godi safonau addysgu o dda i ragorol mewn ysgolion
- safonau addysgu mewn ysgolion sy'n cymryd rhan o leiaf yn Dda gyda nodweddion rhagorol
- ysgolion yn lledaenu hyfforddiant yn llwyddiannus, gan godi safonau addysgu ymhellach yn eu hysgolion eu hunain, yn ogystal ag yn yr ysgolion y maent yn eu hyfforddi.
- cynyddu gallu a chynhwysedd mewn ysgolion / ystafelloedd dosbarth i wella ymhellach a chynnal cynnydd.
- cynyddu cynhwysedd ar draws y rhanbarth o ran cefnogaeth a chydweithrediad ysgol i ysgol.

Prosiect o dan arweiniad Ysgol Eirias (ar gyfer Ysgolion Uwchradd)
Mae 10 athro wedi mynychu'r cwrs peilot ym mis Tachwedd 2018. Nod y prosiect oedd:

- cefnogi unigolion/adrannau ble mae ansawdd yr addysgu yn anghyson neu'n wan;
- datblygu tîm o ymarferwyr effeithiol sy'n gallu darparu rhaglen datblygiad proffesiynol 2- ddiwrnod a phecyn o ganllawiau i athrawon/adrannau uwchradd. Mae'r ffocws ar ymateb i argymhellion addysgeg 'Dyfodol Llwyddiannus' (LIC, 2015) a'r safonau proffesiynol newydd i athrawon.

Roedd yr ymatebion i'r holiadur yn gadarnhaol iawn gyda'r athrawon yn nodi bod yr hyfforddiant a'r adnoddau'n dda iawn ac yn rhoi cyfle da iawn iddynt fyfyrio ar eu harferion presennol.

Mae'r ddarpariaeth drwy'r prosiectau uchod wedi gwneud cyfraniad sylweddol at barodrwydd ysgolion a'u paratoadau ar gyfer y Daith Ddiwygio a dyfodiad Cwricwlwm i Gymru - y pedwar diben, 12 egwyddor addysgegol, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, y safonau proffesiynol i arweinwyr ac athrawon ynghyd â'r agenda lleihau baich gwaith athrawon.

Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r prosiect Ymchwil Gweithredol Rhanbarthol Asesu Ffurfiannol yn datblygu'n dda fel sefydliadau sy'n dysgu ac yn cael cyfleoedd buddiol i gydweithio ag ysgolion ar draws y rhanbarth, ac yn draws sector.

Maent hefyd yn dyfnhau eu dealltwriaeth o addysgeg effeithiol, a hynny ar sail ymchwil lleol a rhyngwladol sy'n eang a chyfredol. Maent yn ymgymryd â gwaith ymchwil gweithredol yn eu hysgolion, yn cydweithio'n broffesiynol ac yn datblygu'n dda o ran hyder ac arloesi.

### Llesiant

Gweithredwyd Cynllun Cymorth GDD clir a chadarn ar gyfer PYD a PMG ar draws y rhanbarth, gyda chynlluniau cyfathrebu clir. Datblygwyd prosesau i fonitro ac i arfarnu effaith y GDD PMG a'u treialu gyda nifer o ysgolion eleni.

Gweithredwyd cynigion rhanbarthol, clwstwr ac ysgol gyda ffocws ar ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ystod y flwyddyn, a chafwyd ciplun o arferion llwyddiannus ar broffil un dudalen. Cafwyd adborth cadarnhaol i'r Arfarniad Un Dudalen, sydd bellach yn rhan o ganllawiau grant 2019-20 ynghyd ag adnodd olrhain unigol enghreifftiol.

Mae'r GDD PMG wedi'i ddefnyddio'n effeithiol mewn ysgolion/AauLl i ddatblygu ymhellach ethos cynhwysol a chefnogol gaiff effaith fuddiol ar lesiant a datblygiad personol disgyblion. Mae ysgolion wedi gweithio ar y cyd â GwE a mentor annibynnol i greu rhaglen i grŵp o ddisgyblion CA4 a dargedwyd er mwyn datblygu gwytnwch, hunan ymwybyddiaeth, ymwybyddiaeth ofalgar a sgiliau personol. Mae hyn wedi dechrau cael effaith ar bresenoldeb ac ymddygiad. Mae ysgolion wedi sylwi ar well agweddau gan ddisgyblion at ddysgu ar y cam cychwynnol hwn. Mae staff hefyd yn rhan allweddol o'r rhaglen. Mae hyn yn creu cynaliadwyedd gyda ffocws ysgol gyfan ar ofal a chymorth.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi mynychu hyfforddiant trawma/ymlyniad ar gyfer plant mewn gofal. O ganlyniad, mae staff yn fwy hyderus wrth ddelio efo dysgwyr ac adnabod cymorth a darpariaeth briodol.

Mae awdurdodau wedi defnyddio'r GDD PMG yn briodol i gefnogi ysgolion i adnabod anghenion dysgu ychwanegol PMG a dysgwyr bregus drwy gyflwyno'r Proffil Boxhall Ar-lein. Gweithredwyd hyn yn effeithiol mewn rhai ysgolion/AauLl i asesu, olrhain a monitro cynnydd PMG.

Canlyniad cydweithio rhwng yr YCG Lles/Cydlynydd PMG a'r YCG Arweiniol yw pecyn cymorth wedi'i deilwra i ysgolion. Bu trafodaethau gyda phob ALl i adnabod anghenion DPP mewn perthynas â chefnogi PMG a dysgwyr bregus yn y rhanbarth . Cyflwynwyd gweithdai cwricwlwm a darpariaeth mewn perthynas â PMG/PYD/dysgwyr bregus. Mae GwE yn cydweithio'n agos â swyddogion ALl i dargedu cymorth ymyrraeth gynnar drwy'r GDD PMG i'r ysgolion hynny sydd â heriau sylweddol o ran ymddygiad ac agwedd rhai PMG at ddysgu, sydd mewn perygl o waharddiad parhaol. Mae ysgolion wedi gweithio gyda GwE/ALl i ddatblygu pecyn cymorth a weithredir yn ystod egwyl/amser cinio, a chanlyniad hyn yw llai o gamymddwyn mewn ysgolion a chymorth i ddysgwyr hunanreoleiddio, sydd wedi cael effaith ar eu gallu i gymryd rhan yn y dosbarth.

Mae oddeutu hanner y PMG wedi cael gwersi preifat ychwanegol ym Mlwyddyn 10/11 i'w cefnogi gyda thechneg arholiad a sgiliau astudio ac adolygu, sydd wedi cael effaith ar eu cyflawniad cyffredinol. Mae mwy a mwy o ysgolion yn monitro ac yn arfarnu effaith cynnydd/cyflawniad PMG ac yn defnyddio astudiaethau achos, data, taflenni arfarnu ac arolygon llesiant ynghyd â Boxall, Motional, PASS a dulliau olrhain eraill.

### Unedau Cyfeirio Disgyblion

Trefnwyd cynhadledd ranbarthol i bawb sy'n gweithio mewn UCD ar draws y rhanbarth gyda siaradwyr gwadd a gweithdai perthnasol i arweinwyr, athrawon dosbarth a chymorthyddion.

Drwy'r gynhadledd, sicrhawyd cymorth a chyfleoedd i gyd-gynllunio a rhannu arferion da rhwng siroedd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd i arweinwyr bob hanner tymor, sydd wedi sicrhau mwy o gyd-gynllunio strategol ac effeithiol ar draws y rhanbarth. Bu hefyd yn ddull effeithiol o rannu arferion da e.e. systemau olrhain cynnydd disgyblion.

## 4. Y DAITH DDIWYGIO

Mae GwE yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau dull clir a systematig o gefnogi a myfyrio ar bob agwedd ar y daith ddiwygio. Ym mhob clwstwr o ysgolion, mae dau arweinydd dynodedig yn hwyluso'r broses rheoli newid a'r cynllunio y mae ysgolion wedi'i wneud wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd a gweithredu'r safonau proffesiynol newydd. Mae YCG yn lledaenu negeseuon allweddol cyson yn effeithiol, gan gynnwys enghreifftiau o arferion llwyddiannus mewn perthynas â'r agenda genedlaethol. Mae'r daith ddiwygio genedlaethol wedi'i gwreiddio mewn blaenoriaethau rhanbarthol ac awdurdod lleol, ac mae YCG yn darparu gwybodaeth drylwyr i bob clwstwr am agweddau allweddol ar y daith ddiwygio.

### Datblygu Cwricwlwm

Mae gwaith diwygio Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddo ar gyflymdra yn y rhanbarth, gan ddefnyddio strwythur y rhwydweithiau clwstwr. Mae'r 53 rhwydwaith clwstwr yn parhau i gyfarfod ac mae diwygio Cwricwlwm i Gymru yn eitem reolaidd ar gyfer ei diweddaru. Mae YCG yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd ac maent yn allweddol ar gyfer cyfathrebu dwyffordd i rannu ac adrodd yn ôl am negeseuon cyson.

Cytunwyd mewn egwyddor ar gynigion y 53 clwstwr ar gyfer y camau nesaf i ddatblygu ymwybyddiaeth am y cwricwlwm, ac mae meini prawf llwyddiant yn cynnwys:

- amcanion cytûn tryloyw i wella deilliannau i ddysgwyr
- nifer cynyddol o staff yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd
- nifer cynyddol o staff ysgolion yn cydweithio
- nifer cynyddol o gyfleoedd i gynllunio a pharatoi ar gyfer y continwwm dysgu 3-16 oed.
- darparu cyfleoedd i athrawon fyfyrio ac arloesi gyda dulliau addysgegol

Mae cyllid llawn wedi'i ddyrannu i gefnogi hyn, a bydd YCG yn cefnogi'r gwaith wrth i ysgolion weithredu'r cynlluniau hyn.

Cynhaliwyd diwrnod llawn i Benaethiaid ar 22 Ionawr 2019. Mynychodd pob YCG, cynrychiolwyr AauLl a 400+ o ysgolion. Nod y diwrnod oedd rhannu negeseuon allweddol am y diwygio ehangach. Mae'r adborth yn glir. Ar hyn o bryd, teimla ysgolion eu bod ar drac gydag ymwybyddiaeth staff o'r wybodaeth sydd ar gael am ddatblygiadau cwricwlwm, yn enwedig y 4 diben a'r 12 egwyddor addysgegol.

### Dysgu Proffesiynol

Mae cynnig proffesiynol GwE yn un cynhwysfawr ac eang sy'n cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i holl staff yr ysgol, o gymorthyddion dysgu sydd am ennill y cymhwyster Cynorthwywyr Addysg Lefel Uwch i Raglen Datblygu Darpar Arweinwyr, Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol a chymhwyster CPCP ar gyfer darpar Benaethiaid. Mae hefyd yn cynnwys cyfleoedd Dysgu Proffesiynol amrywiol eraill, er enghraifft: Llythrennedd a Rhifedd yn y cynradd, pynciau craidd yn yr uwchradd, cynllunio'r cwricwlwm a llesiant.

Yn greiddiol i'r Cynnig Proffesiynol y mae blaenoriaethau GwE. Mae egwyddorion Cwricwlwm i Gymru wedi'u gwreiddio drwy'r holl gynnig, ac yn rhedeg fel edefyn aur i gysylltu'r oll a gynigir.

Mae 4 diben y cwricwlwm yn flaenllaw ym meddyliau'r cyflwynwyr wrth iddynt fynd ati i gynllunio hyfforddiant perthnasol, cyfredol a chyffrous.

Mae gan bob un o gynigion dysgu proffesiynol GwE Fodelau Rhesymeg fel sylfaen iddynt, sy'n adnabod yr angen am yr hyfforddiant a'r mewnbynnau a'r deilliannau, gan gynnwys unrhyw fygythiadau allanol allai effeithio ar y dysgu proffesiynol.

Mae uchelgais yng Nghymru y bydd pob ysgol yn datblygu fel sefydliad sy'n dysgu, yn unol ag egwyddorion OECD. Mae'r gwasanaeth wedi esblygu i gynnig hyfforddiant ar sail yr egwyddorion hyn. Rydym yn gweithio i sicrhau bod yr holl ddysgu proffesiynol a gynigir yn hybu dimensiynau sefydliad sy'n dysgu, gan ddarparu cyfleoedd i ysgolion archwilio dulliau newydd ac addasu i'r amgylchedd sy'n newid. Mae'n canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol sy'n seiliedig ar roi cefnogaeth mewn amrywiol ffurf, gan gynnwys rhaglenni dysgu proffesiynol penodol oddi ar y safle, dysgu o bell, mentora a chydweithio ysgol-i-ysgol effeithiol. Mae hyn oll yn hybu hunan wella ac addysgeg gyda'r nod o ledaenu arfer dda.

Mae'r cynnig wedi'i gynllunio i ymateb i ddatblygu unigolion ar lawr y dosbarth, agweddau ysgol gyfan, cefnogi clystyrau ac anghenion ALI. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar adnabyddiaeth gadarn yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o'u hysgolion unigol, ar anghenion clystyrau penodol, ar ddyheadau'r ALI a blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith pob athro – addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesi a dysgu proffesiynol. Mae cynnig proffesiynol GwE yn cefnogi datblygiad y safonau proffesiynol.

### Atebolrwydd - y trefniadau gwerthuso a gwella newydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd i gymryd lle rhannau o'r system atebolrwydd bresennol. Bydd hyn yn golygu newidiadau sylweddol i ddiwylliant ac ymddygiadau ar draws y system gyfan. Hunan arfarnu cadarn a pharhaus sydd wrth wraidd y trefniadau gwerthuso a gwella. Bydd hyn, ochr yn ochr ag ymgysylltiad cymheiriaid, yn cefnogi dysgu a gwella, yn gwreiddio cydweithio, yn gyrru hunan welliant ac yn codi safonau ar gyfer ein holl ddysgwyr.

Mae'r trefniadau ar sail y pedair egwyddor allweddol a ganlyn.

Byddant yn:

- **deg** - byddant yn hybu tegwch, cynhwysiant, dewis, llwybrau unigol at ddysgu ac ni fyddant byth yn colli golwg ar y dysgwr
- **cydlynol** - gan ganiatáu i bob rhan o'r system weithio gyda'i gilydd heb orgyffwrdd, gyda rolau a chyfrifoldebau clir
- **cymesur** - gan sicrhau bod gweithredu'r trefniadau a'r broses newydd yn hylaw, a'u bod yn gwneud gwahaniaeth Fe'u tanategir gan egwyddor sybsidiaredd, gan sicrhau bod cyfrifoldeb am atebolrwydd yn lleol o dan arweiniad ysgolion gwybodus
- **tryloyw** - cydnabod ehanger profiadau dysgu ar draws ysgolion a gwerth ychwanegol athrawon yn y dosbarth.

Bydd hunan arfarnu a yrrir gan ddata yn nodwedd gref o drefniadau'r dyfodol. Cefnogir hyn drwy becyn cymorth hunan arfarnu cenedlaethol newydd ar gyfer gwelliant a ddatblygir gan Estyn, yr OECD a'r proffesiwn (gweler isod). Deilliant y broses hunan arfarnu fydd adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Bydd gofyn o hyd i ysgolion gyhoeddi eu blaenoriaethau gwella, yn unol â rheoliadau cynlluniau datblygu ysgolion. Disgwylir y bydd ysgolion yn cynnwys cymheiriaid i gefnogi eu trefniadau hunan arfarnu.

Bydd angen i gategoreiddio cenedlaethol, sy'n dynodi lefel y gefnogaeth y mae ar ysgolion ei hangen gan y system i wella, esblygu i broses fwy soffistigedig sy'n edrych ar ystod ehangach o ddangosyddion, megis llesiant dysgwyr. Disgwylir y bydd hyn yn esblygu i system barhaus o ddilysu hunan arfarnu a blaenoriaethau ar gyfer datblygiad ysgolion. Y consortia rhanbarthol fydd yn gweithredu'r broses ddilysu hon ar gyfer ysgolion. Bydd y consortia yn parhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer ysgolion yn unol ag angen, ac yn unol â'r blaenoriaethau gwella a nodwyd.

Bydd disgwyliadau gosod targedau ar lefel ysgol yn parhau, yn ogystal â'r angen i awdurdodau lleol gymeradwyo'r broses gosod targedau. Fodd bynnag, bydd yn esblygu i roi fwy o hyblygrwydd i ysgolion adnabod targedau ar gyfer gwelliant sy'n briodol i gyd-destun yr ysgol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu mesurau system gyfan i helpu i farnu cynnydd yn genedlaethol wrth roi polisi ar waith, ac osgoir crynhoi data lefel ysgol.

Bydd trylwyredd arolygu yn parhau i roi tystiolaeth glir o ansawdd safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd arolygiadau yn cael eu hatal yn rhannol o fis Medi 2020 tan fis Awst 2021 er mwyn i'r arolygaeth weithio gydag ysgolion a'r consortia ar y diwygio cwricwlwm.

Bydd ysgolion sy'n parhau yn destun pryder yn cael eu monitro o hyd gan Estyn yn ystod y cyfnod hwn, a byddant yn dal i gael cymorth gan eu consortia rhanbarthol a'u hawdurdodau lleol.

Wrth symud ymlaen bydd Estyn yn newid y dull arolygu. Bydd hyn yn cynnwys dilysu prosesau hunan arfarnu a gwella ysgolion, a bydd yn digwydd yn fwy rheolaidd nag yn y drefn bresennol. Maes o law bydd Estyn yn dechrau ymgynghori â rhanddeiliaid ar y trefniadau newydd o 2021. Bydd hyn yn cynnwys arolygu ysgolion fwy nag unwaith mewn cylch saith mlynedd.

### Pecyn cymorth hunan arfarnu Estyn/OECD

Fel rhan o'r drefn genedlaethol i ddatblygu trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd diwygiedig, bu Estyn a'r OECD yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu 'pecyn cymorth' gyda'r nod o gynyddu trylwyredd a chysondeb mewn prosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant, a hynny wrth hybu a meithrin y diwylliant a'r ymddygiadau sydd eu hangen i gefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd ac agenda ehangach y daith ddiwygio. Mae rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolaeth o GwE, wedi bod yn cyfrannu i'r trafodaethau ac i raglenni gwaith y grŵp rhanddeiliaid a'r gweithgor. Bydd y pecyn cymorth yn seiliedig ar 5 thema [Arweinyddiaeth, Addysgu a Phrofiadau Dysgu, Llesiant a Chynhwysiant, 4 Diben y cwricwlwm ac Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu] ac yn gyfuniad o ddeunydd enghreifftiol a chyfeirio at arferion llwyddiannus. Rhannwyd adrannau drafft bras â Phenaethiaid mewn amrywiol ddigwyddiadau. Y nod yw y bydd y fersiwn drafft llawn ar gael i ysgolion ei dreialu erbyn mis Medi 2019. Ymateb cymysg fu i'r patrwm cyffredinol, y manylder ac i gyfeiriad y ddogfen hyd yma, ac erys rhai pryderon o hyd. Mae cynrychiolwyr GwE wedi rhannu'r pryderon a ganlyn â Llywodraeth Cymru, Estyn a'r OECD yn rheolaidd:

- thema ganolog sy'n tanategu'r prosiect cyfan yw pwysigrwydd datblygu'r diwylliant a'r ymddygiadau priodol yn y system addysg er mwyn i'r pecyn cymorth a'r dulliau gael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'n ddyddiau cynnar ar y trafodaethau yn y maes hwn. Mae mynd i'r afael â'r maes hwn yn gadarn ac yn effeithiol yn hanfodol mewn perthynas â symud y prosiect yn ei flaen.
- bydd angen i Estyn addasu ei ddulliau arolygu i fod yn gydnaws â chyfeiriad y prosiect.
- mae'r pecyn cymorth yn dal i fod yn 'arolygol' mewn perthynas ag arweiniad a chymorth i ysgolion h.y. fe'i datblygir fel adnodd i 'fesur' yn hytrach nag adnodd i 'wella'. O ganlyniad, nid yw'r egwyddorion, y diben na pherchnogaeth yn glir.

## Digidol

Rhan hanfodol o'r genhadaeth genedlaethol yw sicrhau bod gan bob dysgwr sgiliau digidol o lefel uchel, fel eu bod yn ddigidol gymwys i fod yn feddylwyr beirniadol, creadigol a mentrus.

Mae GwE wedi llunio rhaglen dysgu proffesiynol digidol i gefnogi athrawon ac arweinwyr i ddatblygu profiadau dysgu digidol effeithiol a chynaliadwy ar gyfer disgyblion, a hynny er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn meddu ar sgiliau digidol lefel uchel.

Er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u cymhwysedd digidol yn ôl yr hyn a amlinellir yn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus, mae GwE yn cynnig cyngor proffesiynol, arweiniad, hyfforddiant a chymorth yn y meysydd allweddol a ganlyn:

- gwella sgiliau digidol a hyder athrawon a staff cefnogi - mae dros 800 o aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Gwelwyd cynnydd a gwell cysondeb ar draws y rhanbarth yn y defnydd o ddata Hwb a chynnydd o ran defnyddio Hwb i rannu adnoddau a chyfathrebu ag ysgolion/athrawon/clystyrau. Cefnogwyd 6 ysgol mewn categori Estyn, a oedd ag argymhellion yn cyfeirio'n uniongyrchol at ddysgu digidol, i wneud cynnydd. Ailgynlluniwyd eu darpariaeth i gynnwys tasgau digidol cyfoethog a datblygu eu dealltwriaeth o addysgeg ddigidol effeithiol.

- addysgu a dysgu digidol cyfoethog - sicrhau gwell dealltwriaeth ranbarthol o addysgeg ddigidol drwy gefnogaeth rhwydwaith/clwstwr. Mae 7 rhwydwaith dysgu digidol wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth a hyrwyddo addysgeg ddigidol mewn ysgolion. Cynhaliwyd cyrsiau hyfforddi yn enghreifftio tasgau digidol cyfoethog a thynnu sylw at sut y mae'r tasgau yn ateb gofynion sawl elfen o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Cynhaliwyd sesiynau i athrawon ANG i drafod ac enghreifftio addysgeg ddigidol effeithiol a thasgau digidol cyfoethog.

- datblygu dealltwriaeth o arweinyddiaeth ddigidol effeithiol mewn ysgolion - mae nifer o glystyrau wedi gwneud cynnydd da. Sefydlwyd 7 rhwydwaith newydd gyda'r nod o ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth ganol. Mae trafodaethau'r rhwydweithiau yn dangos gwell dealltwriaeth o brosesau monitro a chanfod gwybodaeth. Cynhaliwyd sesiynau i arweinwyr llythrennedd a rhifedd i amlygu'r cysylltiad rhwng dysgu digidol a'r meysydd penodol hyn.

- gwella dealltwriaeth a sgiliau codio athrawon - mae 121 o glybiau Codio wedi'u sefydlu ar draws y rhanbarth ac mae mwy o athrawon yn ymgysylltu â gweithgareddau codio. Gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau yng nghystadleuaeth codio Cymru gyfan. Mae 40 o glybiau wedi ymgysylltu ymhellach â'r cynllun drwy dderbyn rhagor o offer a hyfforddiant. Adnabuwyd 12 o athrawon arweiniol i fod yn rhan o raglen ddatblygu i'w huwchsgilio i gefnogi clybiau ac athrawon y rhanbarth yn y dyfodol.

## Y Gymraeg mewn Addysg

Mae'r system addysg yng Nghymru mewn cyfnod o drawsnewid, ac mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r diwygiadau hynny. Mae gan y system addysg gyfraniad allweddol i'w wneud ac mae'r rhanbarth wedi ymrwymo i ymateb i bolisi a gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'u cyflawni.

Sefydlwyd Bwrdd Strategol Y Gymraeg i arwain, cydlynu a rheoli maes y Gymraeg yn rhanbarthol o dan arweiniad strategol GwE. Yn ogystal, sefydlwyd timau prosiect i graffu ar flaenoriaethau'r Cynllun Busnes. Amlinellir isod y prif ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn:

- mewn ymateb i Arolwg Sgiliau Iaith Gymraeg y gweithlu, cynhaliwyd dwy Gynhadledd 'Y Gymraeg mewn Addysg a Dwyieithrwydd - cyflwyniad i fyd cymhleth a difyr y

siaradwr dwyieithog', ar y cyd â Phrifysgol Bangor. Lansiwyd llyfryn 'Dulliau Addysgu Dwyieithog', sy'n nodi tystiolaeth yn seiliedig ar ymchwil sy'n wraidd i ddulliau addysgu dwyieithog, a rhannwyd arfer dda mewn dulliau Trochi, Trawsieithu, Cymraeg bob dydd a chynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu (Cynlluniau Sabothol). Cafwyd adborth cadarnhaol iawn.

- mae cyfarfodydd y timau prosiect wedi cryfhau'r cydweithio a'r cysylltiadau rhwng GwE, Athrawon Ymgynghorol/Timau'r Gymraeg yr Awdurdodau Lleol a nifer o fudiadau gwahanol megis darparwyr y Cyrsiau Sabothol (Canolfan Bedwyr), Prifysgol Bangor, Mudiad Meithrin, Mentrau Iaith Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria.
- mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Continwwm y Gymraeg (Uwchradd) wedi cynyddu dealltwriaeth Penaethiaid, Penaethiaid adrannau ac athrawon y Gymraeg o agweddau yn ymwneud â chontinwwm y Gymraeg. Mae nifer o Benaethiaid Cymraeg ac athrawon wedi'u huwchsgilio mewn methodoleg dysgu Cymraeg ail iaith a dealltwriaeth o hanfodion y cwrs TGAU Cymraeg ail iaith. Mae nifer o ysgolion wedi cael cyngor ac arweiniad ar gynllunio cwricwlaidd ar gyfer y Gymraeg.
- mae gwaith datblygol wedi digwydd er mwyn paratoi ar gyfer y Fframwaith Cyfunol arfaethedig drwy gefnogi gwaith y Siarter Iaith a'r tri Chydlynydd, gan geisio cynyddu'r cydweithio rhwng y Siarter Iaith a Chymraeg Campus.
- cefnogir cynlluniau Rhoi'r Iaith ar Waith, sef prosiectau penodol mewn ysgolion neu glystyrau o ysgolion sy'n rhoi cyfle i dreialu dulliau gwahanol o hyfforddi, codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Gymraeg.
- yn dilyn cwblhau'r arolwg sgiliau iaith, mae 8 aelod o staff GwE wedi derbyn gwersi Cymraeg yn ystod 2018-19 drwy'r prosiect Cymraeg Gwaith, a thrwy hynny, cynyddu sgiliau iaith gweithlu GwE.
- ceir cydweithio cryfach rhwng GwE, Canolfan Bedwyr, yr ALl a Llywodraeth Cymru wrth recriwtio ar gyfer y Cyrsiau Sabothol. Sefydlwyd trefn recriwtio ar y cyd â Chanolfan Bedwyr a'r ymgynghorwyr iaith ym mhob awdurdod. Cynhaliwyd cynllun i dreialu Cwrs Dilyniant y Cwrs Sabothol Cymraeg mewn Blwyddyn – y cyntaf o'i fath i gynnig cymorth ac ôl-ofal/dilyniant ar gyfer y dysgwyr. Bydd yn cael ei fonitro yn ystod tymor yr haf er mwyn mesur effaith a'r posibilrwydd o barhau.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Sefydlwyd gwaith clwstwr ar drawsnewid ADY yn y rhanbarth, gan ddarparu dull cyson o gefnogi parodrwydd ysgolion at weithredu'r diwygio ADY. O ganlyniad, mae gan ysgolion ymwybyddiaeth o'r diwygio ac maent wedi gweithio gyda'u clwstwr i adnabod blaenoriaethau ar y cyd a chyflwyno cynllun gweithredu clwstwr. Mae'r model yn sicrhau y caiff pob ysgol yn y rhanbarth gyngor a chefnogaeth manwl gywir, amserol a chyson wrth i ni symud at ddiwedd y daith drawsnewid ac at weithredu.

Ar ben hynny, mae uwch arweinwyr a chlystyrau wedi adnabod eu hanghenion dysgu proffesiynol eu hunain ar gyfer cefnogi'r gweithredu, sydd wedi llywio cynnig dysgu proffesiynol 2019-20 ar gyfer trawsnewid ADY.

Bu gwaith arloesi llwyddiannus ar lefel clwstwr, gan gynnwys diffinio darpariaeth gyffredin, diffinio addysgu o'r radd flaenaf a gweithredu strategaethau ar gyfer cyfathrebu â rhieni a gofalwyr.

Anogwyd clystyrau i ddatblygu eu gwaith ar drawsnewid ADY ar y cyd ac yn gydlynus lle bo modd, gan gefnogi dysgwyr wrth iddynt symud i gam nesaf eu haddysg.

Bydd gwaith cefnogi yn parhau i sicrhau bod clystyrau yn rhagweithiol wrth weithio ar y cyd, gan nodi blaenoriaethau a datblygu cynllun gweithredu.

## Asesu a thracio

Gwelir effaith y crynodeb data a'r adnoddau tracio mewn llawer o ysgolion. Mae hyn yn cynnwys:

- athrawon ac arweinwyr ysgolion yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion unigol, o'r gwaelodlin i ddiwedd addysg gynradd
- ysgolion yn canolbwyntio ar gynnydd grwpiau o ddysgwyr
- gwell cysondeb mewn asesiad athro a gosod targedau, sy'n arwain at hunan arfarnu a cynllunio gwelliant fwy cadarn
- defnyddio amrywiol ffyrdd i ddadansoddi data disgyblion a chyflwyno canfyddiadau, er enghraifft, mewn graffiau a siartiau

Mae llawer o ysgolion sydd wedi ei ddefnyddio fel eu prif system tracio cynnydd wedi'u nodi gan Estyn fel ysgolion sy'n olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ac fe'u defnyddiwyd fel astudiaethau achos arfer dda.

Mewn ysgolion cynradd, mae ffocws clir ar olrhain cynnydd disgyblion ledled y rhanbarth:

- System Dracio Ysgol Gyfan - cafodd hon ei chreu o'r fersiwn flaenorol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae dros 70% o ysgolion cynradd y rhanbarth wedi mynychu hyfforddiant .
- Taenlen Crynhoi Data: Darparwyd crynodeb o ddata disgyblion Bl2 a Bl 6 ar gyfer pob ysgol gynradd. Mae Penaethiaid wedi canmol hyn am yr wybodaeth a ddarparwyd a'r lleihau ar lwyth gwaith. Mae fersiwn ddiwygiedig wedi'i drafftio, sy'n cynnwys data cynnydd hPYD a Bechgyn/Merched. Mae hon yn cynnwys siartiau ac adroddiad naratif fydd yn lleihau llwyth gwaith ysgolion ymhellach. Rhannwyd negeseuon clir ledled y rhanbarth mewn sesiynau hyfforddi Cyfnod Sylfaen ynghylch cymedroli asesiadau gwaelodlin er mwyn sicrhau manwl gywirdeb a chysondeb.
- Cymedroli CA2 a CA3: O'r 403 ysgol yn y rhanbarth, mynychodd dros 95% y cyfarfodydd cymedroli, 97% y cyfarfodydd iaith Gymraeg, 95% y rhai iaith Saesneg a 96% y rhai mathemateg a gwyddoniaeth. Drwy'r rhanbarth, roedd cytundeb ar lefelau ffit orau y rhan fwyaf o ysgolion.

Mae cefnogaeth i ysgolion rhanbarthol weithredu'n hyderus mewn hinsawdd o 'ymreolaeth haeddiannol' wedi canolbwyntio ar ddatblygu eu gallu i reoli data yn erbyn ffiniau cynyddol amrywiol ac sy'n newid yn gyflym. Yn yr hinsawdd hon, sy'n esblygu o hyd, mae disgwyl i ysgolion weithredu'n fwy effeithiol ar dair lefel: rhagamcanion ar sail proffilio personol, cymdeithasol ac economaidd, lleihau amrywiad mewn ysgol a dadansoddi ar lefel cwestiwn gyda chymheiriaid ac ar lefel ranbarthol er mwyn creu her briodol.

Mae tair agwedd ar weithredu GwE eleni.

Yn dilyn ymweliad llwyddiannus â Llywodraeth Yr Alban i adolygu eu rhaglen rheoli data Insights, fe dynnodd GwE ar arfer orau yn erbyn ffiniau cenedlaethol a rhanbarthol y DonPA. O ganlyniad, bu sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru a'r consortia eraill yn hanfodol er mwyn profi ein model a chreu hyder ystadegol yn y ffiniau craidd sy'n angenrheidiol ar gyfer dangos potensial disgyblion unigol mewn cyd-destun ysgol. Arfarnwyd pob ffin yn erbyn yr ymchwil academaidd mwyaf cyfoes. Sefydlwyd bwrdd prosiect i sicrhau cynnydd yn erbyn amserlen Siart Gantt, mae dau ymchwilydd ôl-ddoethuriaeth o Brifysgol Warwick a Phrifysgol Glyndwr yn datblygu'r modelau ystadegol ac mae ymchwilydd ôl-ddoethuriaeth o Brifysgol Bangor yn ymchwilio i'r dystiolaeth i gefnogi defnyddio ffiniau allweddol. Mae Pennaeth Ymchwil GwE yn goruchwylio'r bwrdd prosiect, ac mae'r Athro Academaidd Arweiniol Richard Hastings yn gweithredu mewn rôl lywodraethu.

Yn ychwanegol i'r uchod, mae 27 o ysgolion uwchradd yn treialu system rheoli data sy'n canolbwyntio ar amlygu amrywiad mewn ysgol. Gan bod amrywiad mewn ysgol bedair gwaith yn fwy arwyddocaol nag amrywiad rhwng ysgolion, mae mynd i'r afael â hyn yn effeithiol yn

greiddiol i wella perfformiad yn y rhanbarth. Cynhaliwyd cynhadledd ranbarthol i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r gwaith a wneir, a mynychodd 36 ysgol. Mae rhaglen beilot arall ar raddfa lai yn mynd rhagddi i adolygu a datblygu ymwybyddiaeth ysgolion o olrhain a dadansoddi ar lefel cwestiwn.

Trydydd llinyn ein rhaglen waith yn y maes hwn oedd cefnogi ymchwil gweithredol mewn ysgolion a oedd yn canolbwyntio yn fwy fforensig ar ddulliau ysgol gyfan o reoli data, a'r gwaith ymchwil sy'n cefnogi'r strategaethau hyn. Gofynnir i'r ysgolion sy'n cymryd rhan gyflwyno traethawd 2500 gair fydd yn llyfrgell ymchwil o gamau gweithredu gwybodus. Bydd pob ysgol yn cyflwyno eu canfyddiadau ac yn amlygu elfennau y credant sydd â photensial i reoli data. Mae'r gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar y sgiliau arweinyddiaeth trosglwyddadwy sydd eu hangen i reoli data, ac mae'n symud rheoli data o system 'wedi gwneud' i system sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd y 3 ffrwd waith a nodir uchod yn cael eu blaenoriaethu ymhellach yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019-20, ac fe wneir arfarniad llawn o effaith cyn diwedd y flwyddyn ysgol.

### G6

Mae G6 (y system gwybodaeth reoli ranbarthol) wedi cefnogi ysgolion i fyfyrio ar eu paratoi ar gyfer yr agenda drawsnewid barhaus. Rhydd gyfeiriad clir hefyd ar sut y bydd GwE yn gweithio mewn dull clir a threfnus i gefnogi ysgolion i fyfyrio ar eu parodrwydd ar gyfer y cwricwlwm newydd a'u paratoadau ar gyfer y daith ddiwygio.

Mae'r system yn cynnig strwythur ar gyfer cael darlun o brosesau gwella a blaenoriaethau ysgolion, ac mae'n coladu tystiolaeth feintiol o'r daith gwella ysgol. Mae ysgolion yn defnyddio'r cerrig milltir yn y modiwlau Cwricwlwm i Cymru ac ADY yn effeithiol. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion fyfyrio ar eu sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r daith ddiwygio, a darperir camau nesaf clir i'w hystyried. Mae'r system hefyd yn ddarlun o arferion gorau ac fe rennir y rhain rhwng ysgolion. Cyfoethogir gwaith clwstwr drwy rannu blaenoriaethau ar G6, ac mae deialog yn gymorth i weld y lefel o gefnogaeth sydd ar ysgol ei hangen a'r cydweithio rhwng ysgolion. Caiff ysgolion fynediad i Ddysgu Proffesiynol ALI drwy'r system a gellir gweld cysylltiadau rhwng blaenoriaethau ysgol gyfan ac anghenion dysgu proffesiynol.

Trwy gyfathrebu rheolaidd a chryno rhwng ysgolion a GwE, mae'r system yn canolbwyntio ar drosglwyddo data byw i gefnogi cynnydd disgyblion. Gyda mwyfwy o ddeialog broffesiynol rhwng yr YCG a'r ysgol, gall YCG ymateb yn gynt i helpu ysgolion gyda meysydd sydd angen cefnogaeth.

Yn dilyn cyflwyno'r system yn llwyddiannus yn y rhanbarth ac yn draws sector, cynigiwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth effeithiol i arweinwyr ysgolion a defnyddwyr GwE er sicrhau bod y system yn gwreiddio ymhellach.

Cwblhawyd bron holl ddatblygiadau cam 2 y system ar amser, a chwblhawyd datblygiadau system pellach mewn ymateb i adborth uniongyrchol gan ddefnyddwyr neu i ddatblygiadau cam 1. Er enghraifft, creu modiwl Targedau Lleol, sy'n dal gwybodaeth heb gynyddu llwyth gwaith ysgolion.

Defnyddiwyd y grwpiau rhanddeiliaid Cynradd ac Uwchradd i gasglu adborth ar y system. Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid G6 dynodedig yn ogystal. Yn ogystal â darparu adborth uniongyrchol, mae'r grŵp wedi treialu datblygiadau yn effeithiol, gan gynnwys Mynediad i lywodraethwyr.

Mae nifer yr astudiaethau achos a gyhoeddwyd yn y modiwl arferion llwyddiannus, y sicrhawyd eu hansawdd, wedi dyblu. Mae gwaith pellach i'w wneud i ddatblygu'r ystod o astudiaethau achos a rennir, yn ogystal â'r cydbwysedd rhwng sectorau.

Dengys ffigurau rhanbarthol ym mis Rhagfyr 2018 ar gyfer ymgysylltu â G6 bod:

95% o ysgolion Cynradd wedi gosod eu blaenoriaethau ar G6 yn ystod tymor yr hydref 2018.

- 85% o ysgolion Uwchradd wedi gosod eu blaenoriaethau ar G6 yn ystod tymor yr hydref 2018.
- dengys ffigurau rhanbarthol ym mis Mawrth 2019 ar gyfer modiwl ADY Cymru bod:
- 64% o ysgolion yn datgan eu bod naill ai'n rhannol ar drac neu ar drac gyda'r garreg filltir 'Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu'.
- 66% o ysgolion yn datgan eu bod naill ai'n rhannol ar drac neu ar drac gyda'r garreg filltir 'Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn'.

## 5. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

### Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (YSD)

Mae GwE yn gweithio gyda'r OECD ar ddatblygu'r Consortia a'r AauLl fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Rhennir unrhyw beth a ddysgir o'r gwaith hwn â rhanbarthau eraill, ac yn rhyngwladol, gan ein bod yn ymdrechu i ddatblygu ymhellach sefydliad bywiog ac iach.

Yn ystod 2018-19, cafodd 50 o ysgolion yn rhanbarth GwE eu dewis ar hap gan Lywodraeth Cymru i ymateb i arolwg a oedd yn canolbwyntio ar saith dimensiwn Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (YSD). Derbyniodd yr ysgolion giplun o'u canlyniadau er mwyn rhoi trosolwg iddynt o'r agweddau i'w datblygu ymhellach.

Mae'r ysgolion hynny wedi derbyn cefnogaeth gan GwE i ddatblygu'r agweddau hyn drwy gyfarfodydd rheolaidd, gweld arfer effeithiol mewn cynhadledd genedlaethol a hefyd edrych ar agweddau penodol ar waith ymchwil gweithredol trwy fynychu cyflwyniad gan British Columbia ar 'Spiral of Enquiry'.

Mae sawl un o ysgolion GwE wedi bod yn gweithio ar ddatblygu adnodd fyddai'n cyfleu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu i'n disgyblion. Cydweithiodd 7 ysgol i ddatblygu animeiddiad ar y cyd â disgyblion a phobl ifanc sydd bellach yn cael ei ddangos ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion y rhanbarth hefyd wedi datblygu fersiwn gymunedol o'r cyflwyniad ar YSD sydd am gael ei gynnwys mewn adnodd cenedlaethol wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r rhanbarthau eraill.

Mae pob un o'r ysgolion sydd wedi ymgymryd â'r arolwg wedi cynnal gweithgareddau amrywiol er mwyn datblygu YSD ymhellach yn eu hysgolion ac wedi llunio astudiaethau achos i'r perwyl hwn.

Cafodd y rhanbarth gais gan Lywodraeth Cymru i lunio adnodd fyddai'n helpu i godi ymwybyddiaeth ysgolion Cymru o beth mae'n ei olygu i fod yn YSD. Datblygwyd hwn ar y cyd â'r rhanbarthau eraill yng Nghymru a bellach fe'i defnyddir gan 20 o ysgolion GwE i godi ymwybyddiaeth o YSD yn eu dalgylchoedd a'r tu hwnt.

Mae cynllun cenedlaethol wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r rhanbarthau eraill ar sut y byddwn yn datblygu holl ysgolion Cymru i fod yn sefydliadau sy'n dysgu. Er yn gynllun cenedlaethol, bydd yn cael ei gyflwyno yn y rhanbarthau efo blas lleol.

## Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Mae'r berthynas rhwng GwE, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caer yn datblygu'n effeithiol gyda'r bartneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng ngogledd Cymru, sef CaBan. Bu GwE yn rhan allweddol o'r cynllunio a'r paratoi ar gyfer y rhaglenni AGA newydd wrth i CaBan ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru ac adroddiad John Furlong - "Addysgu Athrawon Yfory":

- cydweithio â Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Caer i ddatblygu partneriaeth CaBan drwy achrediad.
- mwy o gydweithio ag ysgolion partner i gyd-lunio rhaglenni CaBan - ysgolion partner yn dechrau cynllunio ar gyfer fwy o rôl wrth gyflwyno AGA.
- cyfraniad GwE i sicrhau ansawdd ysgolion partner, cefnogi datblygu deunyddiau enghreifftiol AHA/CDY a defnyddio G6 i arfarnu effaith AGA.
- cefnogi ysgolion i wella AGA a'r hunan arfarnu
- dechrau cynllunio cysylltiadau effeithiol rhwng dysgu proffesiynol GwE a staff CaBan er sicrhau dulliau cyson o ddatblygu addysgeg.

Bydd GwE yn parhau i weithio ar y cyd â CaBan a phartneriaid ysgol i:

- ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon er sicrhau bod athrawon o'r radd flaenaf yn dod i mewn i'r proffesiwn.
- cefnogi'r gwaith o ddenu ymgeiswyr o safon uchel a graddedigion o'r radd flaenaf a'u cadw yn y proffesiwn, a hynny drwy'r llwybrau hyblyg newydd at addysgu gyda'r Brifysgol Agored/Llywodraeth Cymru
- cefnogi datblygiad dull dysgu proffesiynol gydol gyrfa cenedlaethol

## Ymchwil a Gwerthuso

Mae GwE yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar y Prosiect 'Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith' (CIEREI) i sicrhau systemau arfarnu grymus ar gyfer eu rhaglenni datblygu ac ar gyfer mesur eu heffaith mewn ysgolion, a hynny fel rhan o ddull gweithredu rhanbarthol. Dyma fwriadau'r amrywiol brosiectau:

- Prosiect Model Cyrhaeddiad Plentyn Unigol (iCAM) - gweithio gydag arbenigwyr o Brifysgol Warwick a Phrifysgol Bangor i ddatblygu model cyrhaeddiad plentyn unigol ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru, a hynny er mwyn rhagfynegi cyrhaeddiad a llywio blaenoriaethau a yrrir gan y plentyn. Bydd y model yn seiliedig ar ddata hanesyddol o hyd a lled Cymru. Os yw'n llwyddiannus, byddai'n cael gwared ar yr angen am gymariaethau mympwyol rhwng ysgolion, gan fodelu disgwyliadau am gyrhaeddiad disgyblion unigol yng nghyfnod allweddol 4 yn lle hynny.
- Astudiaeth Ddarllen Ar-lein Gogledd Cymru - Prosiect Gweithredu Trawsrhanbarthol (NorthWORTS-TRIP) - gwella'r ddarpariaeth ar gyfer strategaethau addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ysgolion cynradd ym mhob ALl (Cyfnod Sylfaen a CA2).
- Prosiect Darllen Ailadroddol Gogledd Cymru (NWRRP) - arfarnu effeithiolrwydd ymyrraeth Darllen Ailadroddol i wella rhuglder darllen disgyblion yn yr ysgol gynradd.
- Prosiect Gwella Lles ac Ymddygiad (iWaB-RLC) - arfarnu effaith strategaethau ymddygiad a rhaglenni lles.
- Prosiect Parodrwydd Cadarnhaol i Ddysgu (PR4L)- gwella safonau cyrhaeddiad, ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion

Mae bron bob un o'r prosiectau uchod yn canolbwyntio ar ddefnyddio syniadau a strategaethau sy'n seiliedig ar ymchwil i wella deilliannau. Mae'r holl brosiectau yn ymwneud â myfyrwyr ymchwil yn gweithio gydag ysgolion i hyfforddi, cyflwyno ac asesu effaith strategaethau a syniadau effeithiol. Maent hefyd yn cynnig syniadau a strategaethau ymarferol i ysgolion ar gyfer gwella ymddygiad a lles trwy ddefnyddio syniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y gwaith hwn yn llywio ysgolion wrth iddynt edrych tuag at ddiwygio cwricwlwm a'r MDaPh iechyd a lles.

## 6. BUSNES

### Datblygu Staff

Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r gefnogaeth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cefnogaeth a thrafodaethau cyson yn sicrhau bod gan yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wybodaeth dda a chyfredol am ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl.

Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Cyfathrebir negeseuon a gwybodaeth yn glir a chyson i holl weithwyr y sefydliad, a chynigir rhaglenni cefnogaeth generig a phwrpasol effeithiol. Sicrheir cyfleoedd cyson mewn cyfarfodydd tîm llawn a sector i gydweithio, i ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau am gyfeiriad gwaith GwE mewn cyfnod o newid sylweddol.

### Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel yn rhoi sylw i bob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir gyfraniad y gwasanaeth i'r agenda trawsnewid. Mae'r cynlluniau wedi'u costio'n llawn, gyda meini prawf llwyddiant a cherrig milltir clir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl ble adolygir y cynlluniau bob chwarter, gan arfarnu y cynnydd a'r effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb am welliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno gan Bennaeth y gwasanaeth a'r Ymgynghorydd Craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei adolygu'n gyson mewn cyfarfodydd rhwng yr Ymgynghorydd Arweiniol a'r Awdurdodau Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio'n amserol at uwch arweinwyr GwE.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, a meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

### Gwerth am Arian

Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ar drefniadau ariannol yn effeithiol, ac mae staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol, a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ein cefnogi wrth gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn fwyfwy effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian weithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

### Cofrestr Risg

Mae trefniadau trylwyr a chyfansawdd i adnabod yn fanwl gywir risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac ar gyfer rheoli'r risgiau hyn. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff

ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Caiff ei hadolygu'n fisol yng nghyfarfod yr uwch dîm arweinyddiaeth, ac yn chwarterol gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol mae GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

## 7. BLAENORIAETHAU CYNLLUN BUSNES 2019-20

Mae'r prif feysydd sydd angen eu datblygu, a nodwyd o'r drefn hunan arfarnu, yn flaenoriaethau yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019-2020.

Mae ein amcanion strategol a'n blaenoriaethau gwella ar gyfer 2019-20 wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli a Chyd-bwyllgor GwE. Rhennir y Cynllun Busnes yn 6 adran, ac mae'n gydnaws ag '*Addysg Yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'.* Nodir yn glir gyfraniad y gwasanaeth i'r agenda trawsnewid.

Mae'r Cynllun Busnes yn perthyn i gynlluniau manylach gan y gwasanaeth, gyda thargedau gwella mesuradwy a meini prawf llwyddiant eglur i fesur cynnydd yn y rhanbarth yn fanwl gywir. Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn unol â'r Fframwaith Atebolrwydd (Atodiad 3).

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno gan Bennaeth y gwasanaeth a'r Ymgynghorwyr Craidd arweiniol. Ym mhob cynllun, ceir materion allweddol o fewn yr awdurdod lleol, ynghyd â chynllun gwella unigryw i roi sylw i heriau penodol. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei adolygu'n gyson.

Ein amcanion strategol ar gyfer 2019-20 yw:

**1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel:**

- Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.

**2: Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau:**

- Sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi , cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth wasgaredig yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.

**3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles:**

- Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.

**4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunan wella:**

- Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn. Sicrhau bod arweinwyr ysgolion ac

athrawon yn meddu ar y sgiliau, y gallu a'r ymrwymiad i ddysgu'n barhaus a gwella eu ymarfer fel bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial

**5: Cwricwlwm sy'n Trawsnewid**

- Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n ei alluogi i fod yn ddysgwr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd ei botensial.

**6: Busnes**

- Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Ein prif flaenoriaethau gwella ar gyfer 2019-20 yw:

**1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel:**

1.1 Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd
1.2 Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr
1.3 Cefnogi Prifysgolion Bangor a Chaer i ddatblygu darpariaeth AGA o safon uchel

**2: Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau:**

2.1 Darparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu er mwyn sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel
2.2 Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol
2.3 Datblygu model a phrosesau ymgysylltu â chymheiriaid gyda ysgolion i sicrhau hunan-arfarnu cadarn a chynlluniau gwella ar bob lefel

**3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles:**

3.1 Cefnogi strategaeth dysgwyr bregus
3.2 Datblygu ymhellach y Strategaeth PMG
3.3 Gweithio gydag AauLl ac Ysgolion i baratoi ar gyfer y rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol

**4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunan wella:**

Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd:

4.1 Datblygu systemau tracio ac asesu
4.2 Datblygu systemau atebolrwydd a rheoli
4.3 Datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu cadarn a chynlluniau gwella

**5: Cwricwlwm sy'n Trawsnewid:**

5.1 Paratoi Cwricwlwm Trawsnewidiol
5.2 Gwella ansawdd yr addysgu, gan ystyried y 12 egwyddor addysgegol (Dyfodol Llwyddiannus)

**6: Busnes:**

6.1 Cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu.

**GwE review of current practice and direction of travel**

**Background and evidence base**

I met with a range of senior colleagues from GwE who briefed me on developments and also demonstrated to me the G6 tool and the business planning system. Of course, I was unable to triangulate any of this with the views of other stakeholders (eg head teachers, local authority officers or the Welsh Government) so these findings are based on the evidence brought to me during the one and a half days that I spent with GwE staff.

GwE has come a long way since its foundation in 2013. The critical Estyn report of 2016 has been superseded by a positive Estyn report in 2017. The focus is now on support and on capacity-building for a self-improving system. Challenge Advisers have become "Supporting Improvement Advisers" and this is more than a name change – it signals a determination from the leaders of GwE to build trust with its key stakeholders and to move away from a top-down approach to school improvement, developing a more long-term, supportive and sustainable strategy. However, this is against a background of wholesale change at national level as far as schools are concerned. The National Mission is a coherent and exciting agenda but the amount of change that is required from schools is unprecedented. It will, inevitably, not only create turbulence in schools but it will also push schools to the limit of their capacity and perhaps beyond their capacity. The national changes are, in broad terms, welcomed by the profession – but it is in the successful management of their implementation that the challenges lie. Some of the changes are statutory and are highly demanding.
All this change is against a background of a history of a top-down culture from some local authorities that encouraged dependency amongst school leaders. In addition, there are challenges to school budgets and increasing difficulty in recruiting leaders and teachers, especially in deprived or remote areas.

**Grounds for optimism/areas of strength**

1. The team has built credibility with schools. Increasingly at secondary level GwE has serving headteachers (either on a secondment basis or as part-time associates). Primary advisers usually have head teacher experience.
2. Relationships with local authorities, including those with the six education portfolio leads, have improved significantly.
3. The professional development programme is increasingly based on need rather than on the interest and specialism of the advisers.
4. The new G6 instrument has the potential to save schools time and to integrate the various scrutiny and monitoring requirements whilst at the same time supporting school self evaluation. It has very significant potential.
5. Internal business plans are robust and are monitored systematically – they connect activity with impact and with budget monitoring. This is impressive.
6. Some of the clusters are working very well and demonstrating outcome-focused collaboration and collective responsibility; though this is still a minority.
7. GwE is doing impressive work to enable pioneer schools to provide some strong collaborative leadership across their clusters for the new Welsh Curriculum, though this is still patchy.
8. The new proposed system for analysing the expected progress of pupils, linked to value-added and contextual factors, is highly impressive and could help to shift the culture away from competition with other schools and away from focusing on borderline pupils towards focusing on every child and his or her progress.

9. It is very early days but the new emphasis on using small data for school improvement has great potential to increase the confidence of schools towards school-based approaches to improvement and can empower teachers to take greater responsibility for improving teaching and learning and support for children in their classrooms/schools.
10. There is a new approach to creating a directory of successful practice which can be shared electronically. This has the potential to support the dissemination of good practice in a practical way.
11. Very significant progress is being made on leadership development – across all 4 regions - linked to impressive leadership development programmes and the new direction provided by the NAEL. This is a huge step forward and has great potential to improve the quality of school leadership.

**Challenges/concerns**

1. **Leadership from the middle**. There is a tension between on the one hand GwE being perceived as a service to support a self-improving school system and on the other hand GwE being perceived as a delivery arm for the government. GwE is stuck in the middle. Its main funder – the Welsh Government- expects it to deliver on the government's priorities (and rightly so). However, this could reinforce the top-down approach and could create resistance from schools. The key is for GwE to operate effectively in that space between government and schools – enabling schools to understand the government's agenda whilst at the same time connecting with the real issues facing schools and building capacity to enable schools to take responsibility for leading this work themselves. GwE has made a good start on this but it is fraught with difficulties. On the one hand, an approach which is too hands-off will lead to a failure to deliver (and thus lead to criticism from the Welsh Government and from local authorities), whilst on the other hand an approach that is too directive will lead to improvement that is not sustainable. The approach needed will require exceptional leadership and astute management from GwE as it builds capacity and incentivises outcomes-focused collaboration whilst intervening directly (and skilfully) where the seriousness of the situation requires it.
2. **Local politics**. The elected members will expect to receive information about their schools that is simple and straightforward and enables them to compare the performance of their local authority with others. The new accountability proposals from the Welsh Government make this less much likely. GwE will need to provide assurance to elected members that the information that they do receive is robust and useful and enables them to fulfil their own obligations as elected members. This will require a cultural shift in some cases and some further investment of time and effort in the relationship between GwE and lead members.
3. **The future v the present.** There is a tension between the immediate needs and the long-term needs of schools. Most schools will always respond to the immediate accountability imperative, as it it too high risk to ignore. GwE has to balance the immediate needs of the system eg the current requirements of Estyn and the National government's categorisation approach (which will now run for another year) and at the same time to prepare for a very different approach to school accountability that will happen over the next few years. The sooner the proposed new accountability changes are introduced, including a different role for Estyn, the easier it will be to support the new reform agenda.
4. **Leadership of schools and of clusters.** Much is now being expected of school leaders. Most will embrace the new reform agenda in principle but many will lack the expertise to lead within this new environment. The leadership skills required now to lead in a more autonomous self-improving system are more demanding. Even more stark is the requirement to have sufficient school leaders who can step up to lead across clusters and collaboratives. The "lateral" leadership skills needed to lead clusters of schools may take

years to develop. These skills are different from the skills needed for institutional leadership. The pressure is therefore on the NAEL and on GwE to be highly effective in supporting the leadership development agenda.

5. **Capacity in schools.** Most schools will find the implementation of the new reform agenda very challenging. Small secondary and small primary schools – will find it particularly challenging, especially at a time when school budgets are struggling to keep pace with school costs. North Wales has more small schools than other regions and this makes the current agenda particularly challenging. Even when supply cover can be found to support training and development, bringing teachers and leaders out of school may have a negative impact on the quality of teaching in the short-term.

**Recommendations**

The direction of travel that GwE has adopted is exactly the right one. Much is now in place to move things forward strongly – leadership, clear direction, culture, mission and focus, relationships, credibility with schools and local authorities, systems, quality assurance, data. Above all GwE should hold its nerve and keep doing what it is doing.

1. Adopt a gradual and differentiated approach to leading and supporting change. Moving from top-down change to more empowering approaches is the best way forward but this needs to be a gradual approach. If GwE steps back too quickly then there may be too much of a vacuum and if it intervenes too much it will not build long-term sustainability. The compelling narrative of moving towards lateral leadership and collective responsibility needs to be strong and clear, but its implementation needs to be differentiated based on the particular needs of schools and clusters of schools. What is needed here is “nuanced leadership”.


2. Be clear about the bottom lines for intervention. There will be times when intervention and a top-down approach is the only possible strategy eg when there is systemic failure or when the timelines are so tight that without top-down intervention failure is inevitable. This may, for example, apply to some aspects of the ALN agenda or when schools are in an Estyn category and seriously letting down the children. For the rest of the reform agenda, be prepared to live with a messy, mixed-economy approach. Some clusters may be leading the way and others may be far behind but still making progress. As far as collaboration is concerned, “voluntary but inevitable” is better than top-down and compulsory. Provide support but don’t over-manage or over-control.

3. Look constantly to build on success and to share and disseminate it. Not just through the “successful practice” initiative but also through brokerage of school to school support and other ways to expose teachers and leaders to great practice. Avoid insularity and the recycling of mediocre practice. Many teachers don’t know what great teaching looks like and many leaders don’t know what great leadership looks like. One of your roles is to help people to be exposed to great teaching and great leadership.

4. Looking out for highly talented teachers and leaders is a crucial role for those like GwE who lead in the middle of the system. Who can step up, who can lead a training session, who can be encouraged to lead a cluster, who can be given a chance to shine? Not just the usual suspects. The various leadership development programmes are helping to identify future talent but consider how to develop a local solutions approach to talent management and succession planning, linked to clusters.

5 There should be a gradual movement away from a large number of centrally-provided CPD Seek to use school-based staff increasingly in professional development. Use the work on small data and action research to support this. Gradually, there should be less central CPD and more school or cluster-based CPD, led by practitioners.

6 Focus clusters on transparent objectives based on outcomes for children. Encourage them to be willing to share these with parents and with local authorities and to be prepared to be held collectively accountable. Consider carefully how to link SIAs with appropriate clusters, with the focus on facilitation and coaching rather than on leading the cluster themselves.




7 Develop a peer review strategy that schools value and want to participate in. Involve schools in shaping it. Unless the school is in an Estyn category or in danger of being in an Estyn category, do not mimic an Estyn inspection through peer review. Integrate peer review into the work of clusters, so that peer review is part of how trust is built up over time within a cluster and is a way of working rather than a one-off process. SIAs can be used to provide some external quality assurance and robustness – to avoid the criticism that peer review is too cosy.

8 Develop greater clarity on the role of "system leader". Identify the skills needed from system leaders – these skills are different from institutional leadership- and develop a programme of support and development for future system leaders.

9 Continue to look outward and to welcome challenge from those outside North Wales whilst making sure that what you develop is right for your context – not merely transported from elsewhere.

**Conclusion**
I am coming away from these two days feeling positive about the prospects for success in North Wales, in spite of the numerous challenges. The quality of the GwE team is high and the strategies are impressive. The direction of travel is the right one and the team are open to external challenge whilst determined to do the right things for the schools and the children in North Wales.

**Steve Munby (21.09.18)**

## SAFONAU - GRWPIAU O DDYSGWYR

### Bechgyn a Genethod

**Cyfnod Sylfaen -** Yn 2018, roedd y bwlch rhwng perfformiad y genethod a'r bechgyn wedi cynyddu ychydig i 8.6% (7.2% yn 2017, 8.2% yn 2016, 8.3% yn 2015) sy'n debyg i'r bwlch a welir yn genedlaethol (8.5%). Yn ogystal, roedd perfformiad y genethod (87.5%) a'r bechgyn (78.9%) yn uwch na'r perfformiad cenedlaethol am y tro cyntaf ers 2013.

**Cyfnod Allweddol 2 -** Cynyddu unwaith eto wnaeth cyfradd llwyddo y bechgyn i 87.8% yn y DPC sydd yn parhau yn uwch na'r canran cenedlaethol. Mae'r merched yn parhau i berfformio yn well na'r bechgyn ond caewyd y bwlch o'r 5.9% yn 2017 i 4.8% sydd yn is na'r bwlch cenedlaethol o 5.2%.

**Cyfnod Allweddol 3 -** Mae cyfraddau llwyddo y bechgyn a'r merched yn parhau i fod yn uwch na'r cyfraddau cenedlaethol ac mae'r genethod yn parhau i berfformio yn well na'r bechgyn. Cynyddodd y bwlch ychydig o 6.5% yn 2017 i 7.0%, sydd ychydig yn is na'r bwlch a welir yn genedlaethol (7.1%).

**Cyfnod Allweddol 4 -** Parhau mae'r tuedd o'r genethod yn perfformio yn well na'r bechgyn. Cynyddodd y bwlch rhwng perfformiad y genethod a'r bechgyn yn y L2+ o 8.5% i 12.6% eleni. Cynyddodd y bwlch ychydig hefyd yn y Sgôr 9 wedi ei Gapio o 31.5 o bwyntiau i 33.9.

### Prydau Ysgol am Ddim (PYD)

Mae nifer y disgyblion ar draws y rhanbarth sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i ostwng. Yn 2018, roedd 15.5% o'r holl ddisgyblion oedran statudol yn y rhanbarth yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o gymharu â 16.7% yn 2013. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol o 17.4% yn 2018.

**Cyfnod Sylfaen -** Yn dilyn blynyddoedd o gynnydd yn y ganran o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau cinio am ddim sy'n llwyddo i gyflawni'r dangosydd cyfnod sylfaen, gwelwyd gostyngiad o 6.2% yn y ganran a lwyddodd yn 2018. Serch hynny, mae hyn yn sylweddol is na'r gostyngiad a welwyd yn genedlaethol (8.0%). O ganlyniad, mae'r bwlch a welir yn rhanbarthol (17.3%) yn is na'r bwlch cenedlaethol (18.2%).

**Cyfnod Allweddol 2 -** Yn dilyn blynyddoedd o gynnydd yn y ganran o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim a lwyddodd i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd, gwelwyd gostyngiad bychain yn y ganran hon yn 2018 (-0.4%). O ganlyniad, roedd y bwlch rhwng cyflawniad y disgyblion a oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar rhai oedd ddim, yn uwch na'r bwlch cenedlaethol.

**Cyfnod Allweddol 3 -** Cynyddu unwaith eto wnaeth y ganran o ddisgyblion oedd yn gymwys i dderbyn cinio am ddim a lwyddodd i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd. Roedd y ganran a gyflawnodd unwaith eto yn uwch na'r gyfradd cenedlaethol gyda'r bwlch rhwng cyflawniad y disgyblion a oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar rhai oedd ddim yn parhau yn is na'r bwlch cenedlaethol.

**Cyfnod Allweddol 4 -** Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gyffredinol is na'r hyn welir yn genedlaethol. Tra bu gostyngiad yn y ganran o ddisgyblion nad oeddynt yn gymwys i brydau ysgol am ddim a gyflawnodd y L2+ (-1.5%), fe gynyddodd perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (+0.9%). Golygai hyn fod y bwlch wedi lleihau o 32.5% i 30.1% yn 2018. Lleihau hefyd wnaeth y bwlch yn y Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio o 81.3 i 77.7 eleni, gyda'r bwlch yn parhau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gwella perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn parhau yn flaenoriaeth i'r rhanbarth.

## Plant Mewn Gofal (PMG)

Mae niferoedd plant mewn gofal ar draws y rhanbarth yn fychan, 1.0% o'r cohort statudol yn 2018 ac felly gall perfformiad amrywio yn sylweddol yn seiliedig ar berfformiad unigolyn. Yn ychwanegol, mae % uchel o'r rhain ar gofrestr ADY a gall hyn danseilio cymariaethau hanesyddol (40.4% ar ddatganiad neu weithredu ysgol a mwy ac i fyny i 57.7% os yn cynnwys gweithredu ysgol).

Yn y cyfnod sylfaen yn 2018, roedd 64 o blant mewn gofal. Cyflawnodd 71.9% y dangosydd cyfnod sylfaen, cynnydd o 7.1%. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd 73 o blant a llwyddodd 61.6% i gyflawni y dangosydd pwnc craidd, gostyngiad o 9.1%.Yng nghyfnod allweddol 3, roedd 74 o blant a llwyddodd 71.6% ohonynt i gyflawni y dangosydd pwnc craidd, cynnydd o 5.8%. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd 55 o blant mewn gofal a llwyddodd 21.8% i gyflawni yn y L2+ a oedd yn uwch na'r 14.8% yn 2017. Gwelwyd cynnydd hefyd i'r disgyblion hyn yn eu perfformiad yn y Sgôr Pwyntiau Naw wedi'i Gapio (+18.4 pwynt i fyny i 266.8).

## Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY)

Mae nifer y disgyblion a gofnodwyd gyda Saesneg fel iaith ychwanegol ar draws y rhanbarth yn weddol fychan, 3.3% o'r cohort statudol yn 2018 a felly gall perfformiad amrywio yn sylweddol yn seiliedig ar berfformiad nifer bach o blant.

Yn y cyfnod sylfaen yn 2018, roedd 381 o blant gyda Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt sydd yn gymharol a'r 379 yn 2017 ond i fyny yn sylweddol o'r 289 yn 2014. Cyflawnodd 85.6% y dangosydd cyfnod sylfaen, cynnydd o 2.2%. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd 187 o blant, i fyny o'r 162 yn 2017 a'r 121 yn 2014, llwyddodd 82.4% i gyflawni y dangosydd pwnc craidd, gostyngiad o 2.8%. Yng nghyfnod allweddol 3, roedd 101 o blant o gymharu a 88 yn 2017 a llwyddodd 88.1% ohonynt i gyflawni y dangosydd pwnc craidd, cynnydd o 12.0%. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd 65 o blant gyda Saesneg fel iaith ychwanegol a cyflawnodd 12.3% yn y L2+ a oedd yn is na'r 28.3% yn 2017. Gwelwyd cynnydd yn eu perfformiad yn y Sgôr Pwyntiau Naw wedi'i Gapio (+4.3 pwynt i fyny i 301.7).

## Anghenion Addysgol Arbennig - Disgyblion ar Ddatganiad neu Weithredu Ysgol a Mwy

Mae nifer y disgyblion ar ddatganiad neu Weithredu Ysgol a Mwy yn cynrychioli 12.0% o'r cohort statudol a'r nifer ar ddatganiad, Weithredu Ysgol a Mwy neu weithredu ysgol yn 24.7% o'r cohort statudol.

Mae perfformiad plant ar ddatganiad neu weithredu ysgol a mwy, yn y prif ddangosydd, yn amrywio ar draws y cyfnodau yn 2017/18. Yn y cyfnod sylfaen, cynyddodd y bwlch rhwng perfformiad disgyblion sydd ar ddatganiad neu weithredu ysgol a mwy a'r rhai sydd ddim yn y dangosydd cyfnod sylfaen. Disgyn hefyd wnaeth y ganran a lwyddodd i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 o gymharu a'r flwyddyn flaenorol, ac mae'r bwlch rhwng y disgyblion ar ddatganiad neu weithredu ysgol a mwy a'r rhai sydd ddim, wedi cynyddu ychydig. Yng nghyfnod allweddol 3, cynyddodd y ganran o'r disgyblion ar ddatganiad neu weithredu ysgol a mwy a lwyddodd i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn sylweddol, sy'n golygu bod y bwlch bellach wedi lleihau yn sylweddol. Yng nghyfnod allweddol 4, cynyddu ychydig wnaeth y ganran a lwyddodd i gyflawni'r L2+ a mae'r bwlch wedi lleihau 1.3%.

## Perfformiad yn ôl Tarddiad Ethnig

Roedd nifer y disgyblion o darddiad ethnig sydd ddim yn Wyn/Prydeinig yn cynrychioli 7.1% o o'r cohort statudol yn 2018.

Mae perfformiad plant o darddiad ethnig sydd ddim yn Wyn/Prydeinig, wedi cynyddu ym mhrif ddangosydd bob cyfnod, ag eithrio CA4. Am y tro cyntaf, mae perfformiodd y plant yma yn well na'r plant Gwyn/Prydeinig yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 3, ac mae'r bwlch a welir yng nghyfnod allweddol 2 ar ei isaf (0.4%). Yn 2018, disgynnodd y ganran a

gyflawnodd yn y L2+, ac maent bellach yn perfformio 3.0% yn is na'r ganran o blant Gwyn/Prydeinig. Serch hynny, mi arhosodd ei Sgôr Pwyntiau Naw wedi'i Gapio yn gyson ar 365 sydd 10 pwynt yn uwch na chyfartaledd plant Gwyn/Prydeinig.

### Sipsiwn a Theithwyr

Mae nifer y disgyblion o dras sipsiwn neu deithwyr yn fychan iawn ar draws y rhanbarth, 170 o blant yn unig sef 0.2% o'r cohort statudol yn 2018.

Yn y cyfnod sylfaen yn 2018, roedd 19 o blant o dras sipsiwn neu deithwyr, a cyflawnodd 47.4% ohonynt y dangosydd cyfnod sylfaen, cynnydd o 3.6%. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd 16 o blant, a llwyddodd 75.0% i gyflawni y dangosydd pwnc craidd, cynnydd o 29.2%.Yng nghyfnod allweddol 3, roedd 7 o blant a llwyddodd 57.1% ohonynt i gyflawni y dangosydd pwnc craidd, gostyngiad o 2.9%. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd 4 o blant a ni lwyddodd un ohonynt i gyflawni'r L2+ (o'i gymharu a 2017 ble llwyddodd 1 allan o 2, a 2016 ble llwyddodd 1 allan o 5).

### Mwy Abl a Thalentog


Yn 2018, roedd y ganran a llwyddodd ar ddeilliant 6 ymhob pwnc craidd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar y lefelau uwch [lefel 5+] yng Nghyfnod Allweddol 2, parhau i gynyddu wnaeth y ganran a lwyddodd yn y Saesneg a Mathemateg (a Cymraeg ail iaith) gan ddisgyn ychydig yn y Gymraeg a mewn Gwyddoniaeth. Mae'r cyfraddau llwyddo rhanbarthol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ond yn is yn y Saesneg.

Ar y lefelau uwch [lefel 6+] yng Nghyfnod Allweddol 3, gwelwyd cynnydd yn y ganran a lwyddodd yn y Saesneg a Gwyddoniaeth, gyda gostyngiad yn y Gymraeg a Mathemateg. Serch hynny, mae perfformiad y rhanbarth ym mhob pwnc craidd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r ganran o ddisgyblion a lwyddodd i ennill 5A*-A yn parhau i gynyddu o'r 14.0% yn 2016, 14.9% yn 2017 i 15.6% yn 2018. Serch hynny, mae'r ganran sy'n llwyddo yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn parhau yn flaenoriaeth ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth.

## FFRAMWAITH ATEBOLRWYDD CYNLLUNIAU BUSNES – RHEOLI PERFFORMIAD



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**22 Mai 2019**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli |
| **Pwnc:** | Cynllun Busnes Lefel 1 - 2019-2020 |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno'r Cynllun Busnes Lefel 1 ar gyfer 2019-2020 i'r Cyd-bwyllgor eu cymeradwyo.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn nodi’r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth. Mae’r amcanion strategol a’r blaenoriaethau gwella ar gyfer 2019-20 eisoes wedi cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Rheoli a Chydbwyllgor GwE. Mae’r ddogfen ynghlwm yn manylu ar y gweithredu a’r mesurau cynnydd am y flwyddyn.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae'r cynllun busnes yn cyd-fynd ag *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (Llywodraeth Cymru), ac yn adlewyrchu’r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol:

1. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel
2. Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
3. Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
4. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

5. Cwricwlwm trawsnewidiol
6. Busnes

Mae'r blaenoriaethau a'r meysydd sydd angen eu datblygu ar gyfer 2019-20 wedi eu hadnabod o'r drefn hunan arfarnu a thrwy ymgynghori â phenaethiaid a'r awdurdodau lleol.

3.3. Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

3.4 Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn gosod allan y blaenoriaethau ar draws y rhanbarth. Mae'r rhain ar Lefel 1, a chyfrifoldeb y Rheolwr Gyfarwyddwr yw eu cyflawni. Yn y pen draw, y Cyd-bwyllgor sy'n gyfrifol am gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau.

3.5 Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 yn eistedd o dan y cynllun Lefel 1, ac ynddynt mae gwybodaeth fanylach ynghylch blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 yn rhoi manylion ynghylch y camau gweithredu, yr allbynnau a'r meini prawf llwyddiant i'w cyflawni. Mae'r fframwaith cynllunio busnes ar lefel 3 a ddatblygwyd yn sicrhau atebolrwydd, ac yn cynnig strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.

3.6 Adroddir am gynnydd yn erbyn y cynllun busnes bob chwarter mewn cyfarfodydd Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynllun ar gyfer 2019-20.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Grwpiau Defnyddwyr GwE, Byrddau Ansawdd Sirol, Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a Chydbwyllgor GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Cynllun Busnes Lefel 1 – 2019-20.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae cymeradwyo a monitro Cynllun Busnes blynyddol yn un o swyddogaethau penodol y Cydbwyllgor. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwy'n gwerthfawrogi'r Cynllun Busnes, sy'n nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae paragraff 5 o'r adroddiad blaen yn datgan bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes o fewn ei gyllideb gyfredol. Bydd yn heriol i GwE weithredu pob agwedd o'i Gynllun Busnes, tra hefyd yn gwireddu arbedion gwerth £206,485. Fodd bynnag, bydd raid i'r adolygiad o strwythur, ayb, wynebu'r holl anghenion busnes yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol anorfod.

GwE
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# Cynllun Busnes 2019-20 Lefel 1




GwEGogledd.Cymru

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

**Rheolaeth o'r Fersiwn**

Mae hon yn ddogfen fyw, a gellir ei haddasu fel y mae angen i fodloni ein blaenoriaethau.

| Fersiwn | Dyddiad | Diwygiwyd gan |
|---|---|---|
| 1.0 | 08/02/19 | Bwrdd Rheoli GwE |
| 1.1 | 20/02/19 | Cyd-bwyllgor GwE |
| 1.2 | 12/03/19 | Uwch Dîm Rheoli GwE |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

## 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

### RHAGARWEINIAD

Mae GwE yn parhau i edrych tuag allan ac i groesawu her gan rai oddi mewn a'r tu allan i Gymru a sicrhau hefyd bod yr hyn y mae'n ei ddatblygu'n iawn i'w gyd-destun. Mae hyn yn cynnwys gwrando'n barhaus ar lais ei holl randdeiliaid, yn enwedig lleisiau athrawon ac arweinwyr mewn ysgolion ym mhob sector.

Cafodd cynnydd GwE ei gymeradwyo gan Estyn yn dilyn eu hail-ymweliad. Casglodd adroddiad Estyn fod GwE, ers yr arolygiad craidd, wedi cyflawni adolygiad dwys a chynhwysfawr o'i waith a'i effaith ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth. Barnwyd bod y cynnydd gyda phedwar o'r argymhellion yn dda iawn gyda chynnydd cryf wedi'i nodi ar gyfer y ddau argymhelliad arall. Fe wnaeth Estyn hefyd sylw ar gyflymdra sylweddol y gwelliannau gan gydnabod bod llawer iawn wedi'i wneud mewn amser byr iawn. Cafodd rôl GwE mewn gwella ysgolion hefyd ei gydnabod yn gadarnhaol yn yr arolygiad rhagorol yn Sir Ddinbych. Mae gan GwE gynllun tair blynedd clir sy'n egluro sut, mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid allweddol, y bydd yn mynd ati i gryfhau arweinyddiaeth, gwella'r addysgu a'r dysgu a chynyddu dyheadau er mwyn codi safonau a chyflymu'r gwelliannau yn ysgolion uwchradd y rhanbarth.

Mae'r ffocws erbyn hyn ar gefnogi a meithrin gallu er mwyn creu system o hunan-wella. Aeth Ymgynghorwyr Her yn 'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' (YCG) sy'n fwy na newid enw'n unig - mae'n dangos penderfyniad i wella ymddiriedaeth â rhanddeiliaid a symud i ffwrdd o raeadru gwelliannau ysgolion o'r brig i lawr a thuag at ddatblygu strategaeth fwy hirdymor, gefnogol a chynaliadwy.

Mae cynlluniau busnes cadarn a manwl sy'n gwbl seiliedig ar ganfyddiadau prosesau hunanwerthuso'n cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad a rheolaeth effeithiol o unigolion a thimau. Mae model diwygiedig GwE o reoli cynllunio a pherfformiad yn cyfleu'n gwbl glir beth yw gweledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth. Mae cyfeiriad strategol sicr a fframwaith atebolrwydd trylwyr y gwasanaeth yn gryfderau pendant wrth iddo symud ymlaen. Mae'r ffocws cryf hwn ar atebolrwydd, adolygu parhaus a phwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â blaenoriaethau'n arwain at welliannau sylweddol ym mherfformiad staff GwE, ysgolion unigol ac yng nghanlyniadau'r rhanbarth. Hefyd, mae blaenoriaethau GwE'n cyd-fynd yn glir â'r rhai cenedlaethol yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl.*

### CYLLIDEB

Fel pawb arall, rydyn ninnau hefyd yn wynebu hinsawdd ariannol anodd iawn ac felly'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd. Rydyn ni'n ddiolchgar am gefnogaeth y Prif Weithredwyr ar draws y Rhanbarth ac i'r Aelodau Etholedig ar y Cyd-bwyllgor am eu cyngor a'u cymorth i wneud y penderfyniadau gorau i gynorthwyo ein dysgwyr a'n hysgolion.

Yn 2019-2020 ein cyllideb graidd yw £3,614,596. Mae hyn yn doriad o 3% ar gyllideb graidd y llynedd sef £3,651,106. Mae ein cyllideb graidd erbyn hyn tua 25% yn llai na'r hyn ydoedd cyn sefydlu GwE. Eleni bydd ein Grant Gwella Addysg yn £29,064,551 (gan gynnwys arian cyfatebol). Mae hyn yn doriad o bron i £8m ar gyllideb 2015. Ar yr un pryd mae cynnydd o 13% wedi bod mewn costau staffio drwy gyflwyno'r isafswm cyflog, y cyflog byw a chyfraniadau pensiwn. Wrth i ni geisio rheoli'r heriau ariannol hyn, rydyn ni wedi parhau i gynyddu ein cyfraddau datganoli i ysgolion. Mae GwE yn cadw tua 3% o'r GGA er mwyn rhoi cymorth i ysgolion.

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

| | | | *Grant ac arian cyfatebol* | *Grant ac arian cyfatebol* |
|---|---|---|---|---|
| | | Grant ac arian cyfatebol | Toriad (£) | Toriad (%) |
| ***11 o Grantiau Unigol*** | **14/15** | **£37,021,296** | | |
| ***GGA*** | **15/16** | **£33,549,764** | -£3,471,532 | -9.38% |
| ***GGA*** | **16/17** | **£31,902,703** | -£1,647,061 | -4.91% |
| ***GGA*** | **17/18** | **£31,672,444** | -£230,259 | -0.72% |
| ***GGA*** | **18/19** | **£29,124,247** | -£2,548,197 | -8.05% |
| ***GGA*** | **19/20** | **£29,064,551** | -£59,696 | -0.20% |
| | | **Cronnus** | **-£7,956,745** | **-21.5%** |

**MESURAU CYNNYDD CENEDLAETHOL LLYWODRAETH CYMRU**

**1: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL**

- Hyder y proffesiwn o ran cyflawni'r cwricwlwm.
- Safon Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a dysgu proffesiynol ar y gwahanol haenau ac ymateb fel sydd angen.
- Sicrhau bod y cyflenwad o staff mewn meysydd arbenigol yn cyd-fynd â'r galw, gan gynnwys cyfrwng Cymraeg.
- Monitro a oes digon o fynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i ddysgwyr.
- Cymhareb staffio priodol i ddarparu cwricwlwm Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel.

**2: ARWEINWYR SY'N YSBRYDOLI AC SY'N CYDWEITHIO I GODI SAFONAU**

- Pennu ystod ehangach o gyfleoedd i ddatblygu arweinwyr, nawr ac at y dyfodol.
- Cynyddu nifer yr ymgeiswyr o safon ar gyfer swyddi arweinyddiaeth.

**3: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL SYDD WEDI YMRWYMO I SICRHAU RHAGORIAETH, TEGWCH A LLES**

- Pennu ffyrdd o fesur cynnydd o ran lles dysgwyr.
- Datblygu a defnyddio arolygon effeithiol o ddysgwyr, y gweithlu a rhieni.
- Meincnodi'n effeithiol yng Nghymru a chyda'n partneriaid rhyngwladol.
- Monitro perfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael, gyda ffocws penodol ar leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion.

**4: TREFNIADAU ASESU, GWERTHUSO AC ATEBOLRWYDD CADARN I ATEGU SYSTEM HUNANWELLA**

- Tystiolaeth o welliannau system gyfan drwy fesurau y cytunwyd arnynt.
- Cryfhau'r ffordd y mae cydweithio rhwng ysgolion a'u partneriaid.
- Twf ymchwil addysgol yng Nghymru er mwyn cefnogi cydweithio yn well.
- Parhau i fod yn agored i gyngor a chraffu allanol ym mhob rhan o'r system.

**5: CWRICWLWM TRAWSNEWIDIOL**

- Defnyddio ymchwil uchel ei barch ym maes addysgeg a chydweithio effeithiol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm o'r safon uchaf a fydd yn helpu i godi safonau.
- Cyflawni cwricwlwm sy'n trawsnewid, un sy'n canolbwyntio ar y pedwar diben ac yn sicrhau bod popeth yn ffocysu ar godi safonau llythrennedd a rhifedd a sicrhau bod pobl ifanc yn fwy cymwys yn ddigido ac o ran dwyieithrwydd.

| 6: BUSNES |
| --- |
| • Cefnogaeth lywodraethol gadarn a chymorth busnes a gweithredol effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian. |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

## EIN HAMCANION STRATEGOL

1: **Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel**

- Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.

2: **Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau**

- Sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi , cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.

3: **Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles**

- Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.

4: **Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella**

- Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn. Sicrhau bod arweinwyr ysgolion ac athrawon yn meddu ar y sgiliau, y gallu a'r ymrwymiad i ddysgu'n barhaus a gwella eu hymarfer fel bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial

**5: Cwricwlwm Trawsnewidiol**

- Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial.

**6: Busnes**

- Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

## 1: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O ANSAWDD UCHEL

| Blaenoriaethau ar gyfer gwella: |
|---|
| **1.1 Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd.**<br><br>**1.2 Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr.**<br><br>**1.3 Cefnogi Prifysgol Bangor a Chaer i ddatblygu darpariaeth AGA o safon uchel.** |

Tud 66

| **1: Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf.*** | ***Her*** | ***Gweithredu*** | ***Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020*** | ***Yn Gyfrifol*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Cyllid (£)*** |
| 1.1 | **Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd.** | Sicrhau bod gweithredu gyda phob ysgol yn arwain at:<br>• Well ansawdd addysgu;<br>• Well dysgu a lles;<br>• Gynllun Cymorth penodol sydd yn targedu arweiniad a chynhaliaeth i leihau amrywiaethau yn ansawdd profiadau dysgu i ddysgwyr.<br><br>Sicrhau bod YCG y pynciau craidd yn blaenoriaethu'r angen i weithio gydag arweinwyr canol i leihau amrywiaethau oddi fewn i adrannau. | Safonau ar draws amrediad o ddangosyddion yn dangos cynnydd sy'n fwy na'r cynnydd cenedlaethol.<br><br>Cynllun Cymorth pob ysgol yn crisialu lefel a natur y gefnogaeth gaiff ei thargedu i leihau amrywiaethau.<br><br>Gwell cysondeb yn ansawdd y profiadau dysgu i ddysgwyr ar draws yr ystod gallu.<br><br>Arweinwyr ar bob lefel yn gweithredu yn fwy miniog a grymus wrth dracio cynnydd ac wrth graffu ar weithredu ar draws adrannau. Arweinwyr ac adrannau yn cael mynediad i arferion llwyddiannus ac yn cael eu cefnogi i | Arweinwyr Craidd ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt<br><br>Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant pynciol | Ebrill 2019 ymlaen<br><br>Ebrill 2019 ymlaen | Craidd |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

| 1: Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf.*** | ***Her*** | ***Gweithredu*** | ***Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020*** | ***Yn Gyfrifol*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Cyllid (£)*** |
| | | | weithredu'r arferion hynny yn eu hysgol eu hunain. | | | |
| **1.2** | **Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr** | Sicrhau bod twf Cymraeg mewn Addysg yn cael ei gynllunio'n strategol ac effeithiol drwy'r Bwrdd Strategol Rhanbarthol yng Nghymru.<br><br>Datblygu a chyflwyno rhaglen o ddysgu proffesiynol i sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r arbenigedd yn y Gymraeg i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, ar sail y dystiolaeth ac arferion gorau.<br><br>Cyflwyno cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael defnyddio eu Cymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ac i wella eu hymdeimlad o Gymreictod drwy hyrwyddo profiadau ac addysg gyfoethog drwy Siarter y Gymraeg / y Fframwaith Cenedlaethol newydd. | Mae cynllun strategol effeithiol ar gyfer twf y Gymraeg mewn Addysg yn ei le ac ar waith.<br><br>Bydd darpariaeth Gymraeg well a chyfranogi mewn dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn gwella ansawdd yr addysgeg Iaith Gymraeg.<br><br>Nifer fwy o staff ysgolion yn derbyn hyfforddiant ar lefel briodol i wella eu sgiliau Iaith Gymraeg.<br><br>Mwy o gyfleoedd cyfoethogi i blant a phobl ifanc gael defnyddio eu Cymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ac i wella eu hymdeimlad o Gymreictod.<br><br>Mae ysgolion yn cydweithio'n effeithiol ac yn gweithio mewn clystyrau i wella'r ddarpariaeth Gymraeg gan rannu adnoddau ac arferion yn effeithiol yn barod ar gyfer darparu'r cwricwlwm newydd. | Bwrdd Strategol Y Gymraeg Rhanbarthol | Gorffennaf 2019<br><br>Ebrill 2019 ymlaen<br><br>Medi 2019 | Cymraeg - datblygiad proffesiynol |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

**1: Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel**

| *Cyf.* | *Her* | *Gweithredu* | *Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020* | *Yn Gyfrifol* | *Dyddiad Targed* | *Cyllid (£)* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.3** | **Cefnogi Prifysgol Bangor a Chaer i ddatblygu darpariaeth AGA o safon uchel.** | Paratoi'n drylwyr i gwrdd â gofynion Ymweliad Achredu EWC.<br><br>Cefnogi'r gwaith o ddatblygu modiwlau a'r Rhaglen Fentora.<br><br>Sicrhau bod staff GwE wedi eu hyfforddi i sicrhau ansawdd yr ysgolion partner.<br><br>Sicrhau bod GwE yn cyfrannu at ddarparu a sicrhau ansawdd y rhaglen. | Mae EWC yn cydnabod y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amodau achredu (Tachwedd 2018).<br><br>Y modiwlau i gyd yn eu lle ac wedi eu rhannu ag ysgolion partner.<br><br>Ysgolion partner CaBan i gynnwys AGA fel blaenoriaeth ysgol yn G6. GwE /CaBan i sicrhau ansawdd yr holl ysgolion partner.<br><br>Mae ysgolion partner CaBan yn gweithio â sefydliadau Addysg Uwch a GwE i gyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel a'r hyfforddiant diweddaraf i Athrawon Cysylltiol newydd. | I'w gadarnhau | Mawrth 2019<br><br>Gorffennaf 2019<br><br>Mai 2019<br><br>Medi 2019 ymlaen | AGA<br><br>Prifysgol Bangor a Chaer |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

## 2: ARWEINWYR YSBRYDOLEDIG YN GWEITHIO'N GYDA'I GILYDD I GODI SAFONAU

| **Blaenoriaethau ar gyfer gwella:** |
|---|
| **2.1 Darparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel** |
| **2.2 Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol** |
| **2.3 Datblygu model a phrosesau ymgysylltu â chymheiriaid gyda ysgolion i sicrhau hunan-arfarnu cadarn a chynlluniau gwella ar bob lefel** |

**2: Arweinwyr ysbrydoledig yn gweithio gyda'i gilydd i godi safonau**

| *Cyf.* | *Her* | *Gweithredu* | *Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020* | *Yn Gyfrifol* | *Dyddiad Targed* | *Cyllid (£)* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | **Darparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel** | Parhau i ddatblygu a darparu'r Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol (RhDAC) er mwyn sefydlu RhDAC cenedlaethol ar gyfer ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru.<br><br>Parhau i ddatblygu a chyflwyno'r Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (RhDDB) ranbarthol er mwyn:<br>1) sicrhau bod gan arweinwyr y dyfodol ar draws y rhanbarth gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel; | Ystod ehangach o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol ar gael i ystod o arweinwyr er mwyn datblygu arweinwyr presennol ac arweinwyr y dyfodol.<br><br>Nifer well o ymgeiswyr o safon uchel yn ymgeisio am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion a lleoliadau eraill:<br>• 60 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu'r Rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer Datblygu Arweinwyr Canol (30 yn y cohort Cymraeg / 30 yn y cohort Saesneg).<br>• 60 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu cohort 5 y Rhaglen (30 yn y | Rhys H Hughes | Ebrill 2019 ymlaen<br><br>Dylunio Mehefin 2019<br>Dyddiad dechrau – Medi 2019 | Penaethiaid Newydd a Dros Dro |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20



| 2: Arweinwyr ysbrydoledig yn gweithio gyda'i gilydd i godi safonau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf.*** | ***Her*** | ***Gweithredu*** | ***Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020*** | ***Yn Gyfrifol*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Cyllid (£)*** |
| | | 2) sefydlu Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid / CPCP genedlaethol ar gyfer ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol<br><br>Gwerthuso ac adolygu'r Rhaglen Datblygu CPCP bresennol. Y prif ganfyddiadau o hyn i ddylanwadu ar ddatblygu Rhaglen Datblygu CPCP genedlaethol newydd ar gyfer ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol.<br><br>Parhau i ddarparu'r dysgu proffesiynol a gyflwynir drwy'r Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid / Penaethiaid Newydd sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol a'i hachredu gan Yr Athrofa a Phrifysgol Bangor.<br><br>Darparu'r dysgu proffesiynol a gyflwynir drwy'r Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Academi | cohort Cymraeg / 30 yn y cohort Saesneg).<br><br>• 50 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu'r Rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer Datblygu CPCP.<br><br>• 80% o ymgeiswyr yn llwyddo i ennill statws CPPC.<br><br>• Bydd nifer yr unigolion sy'n mynychu'r rhaglen yn dibynnu ar benodiadau yn yr Awdurdodau Lleol.<br><br>• 25 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu'r Rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer Datblygu Penaethiaid Profiadol. | | Mehefin 2019<br><br>Tachwedd 2019<br><br>Mai 2019<br><br>Parhaus<br><br>Medi 2019 ymlaen | |

## Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

| 2: Arweinwyr ysbrydoledig yn gweithio gyda'i gilydd i godi safonau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cyf.* | *Her* | *Gweithredu* | *Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020* | *Yn Gyfrifol* | *Dyddiad Targed* | *Cyllid (£)* |
| | | Genedlaethol a'i hachredu gan Yr Athrofa a Phrifysgol Bangor. | | | | |
| **2.2** | **Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol** | Targedu unigolion yn bwrpasol i fynychu'r rhaglenni.<br><br>Cynlluniau Cymorth pob ysgol yn adnabod pa agweddau o arweinyddiaeth ganol sydd angen sylw penodol ac yn arwain arweinwyr canol i leihau amrywiaethau oddi fewn eu hadrannau, yn benodol felly yn ansawdd y dysgu a'r addysgu. | XX o unigolion wedi eu targedu'n llwyddiannus ac yn cyfranogi'n llawn yn y rhaglenni.<br><br>Sgiliau arweinyddiaeth unigolion wedi grymuso.<br><br>Ansawdd gweithredu yn arwain at welliannau yn y dysgu a'r addysgu. | Sharon Vaughan | Medi 2019 ymlaen<br><br>Ebrill 2019 ymlaen | Arweinwyr y Dyfodol |
| **2.3** | **Datblygu model a phrosesau ymgysylltu â chymheiriaid gyda ysgolion i sicrhau hunan-arfarnu cadarn a chynlluniau gwella ar bob lefel** | Datblygu a gweithredu modelau ymgysylltu â chymheiriaid ar draws y rhanbarth.<br><br>Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddiwygio trefniadau a gweithdrefnau gwella ac atebolrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn :<br>• cwrdd â gofynion a disgwyliadau cenedlaethol.<br>• cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd. | Prosiect braenaru rhanbarthol yn weithredol a lleiafswm o 100 o ysgolion yn cyfrannu i'r gwaith.<br><br>Gweithdrefnau gwella ac atebolrwydd lleol yn cwrdd â'r gofynion a'r disgwyliadau cenedlaethol.<br><br>Gwell cysondeb yng ngrymuster a miniogrwydd gweithdrefnau arfarnu ar draws ac oddi fewn i ysgolion.<br><br>Arweinwyr ar bob lefel yn perchnogi'r atebolrwydd am welliannau oddi fewn | Alwyn Jones / Elfyn V Jones / Marc Berw Hughes | Mai 2019 ymlaen | Cyllid ar gyfer cydweithio |

Tud. 71

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

| 2: Arweinwyr ysbrydoledig yn gweithio gyda'i gilydd i godi safonau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf.*** | ***Her*** | ***Gweithredu*** | ***Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020*** | ***Yn Gyfrifol*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Cyllid (£)*** |
| | | • gadarn, teg, cydlynol a thryloyw.<br>• annog arweinwyr i ysgwyddo mwy o atebolrwydd am welliannau yn eu hysgolion eu hunain ac mewn ysgolion cymheiriaid ymgysylltu<br><br>Cefnogi arweinwyr i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cyfrannu'n effeithiol a phwrpasol i'r trefniadau gwerthuso a gwella.<br><br>Sicrhau bod gweithdrefnau arfarnu a chynllunio gwelliannau pob ysgol yn :<br>• cynnwys ymgysylltu â chymheiriaid<br>• blaenoriaethu gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu ar gyfer yr ystod gallu o ddysgwyr<br><br>Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn gallu gweithredu'n hyderus a grymus wrth gynllunio ac arwain gwelliannau yn y dysgu a'r addysgu a bod defnydd effeithiol yn cael ei wneud o gymheiriaid i gefnogi'r daith gwella. | i'w hysgolion eu hunain ac mewn ysgolion cymheiriaid.<br><br>Gweithdrefnau arfarnu a chynllunio gwelliannau pob ysgol yn :<br>• cynnwys gweithgareddau ymgysylltu â chymheiriaid;<br>• canolbwyntio'n benodol ar ansawdd profiadau dysgu ac addysgu i'r ystod gallu o ddysgwyr.<br><br>Rhaglen monitro dynn yn weithredol i arfarnu effaith y prosiect braenaru. | | | |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

## 3: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL SY'N YMRWYMEDIG I RAGORIAETH, TEGWCH A LLES

| Blaenoriaethau ar gyfer gwella: |
|---|
| **3.1 Cefnogi Strategaeth dysgwyr bregus**<br><br>**3.2 Datblygu ymhellach y strategaeth PMG**<br><br>**3.3 Gweithio gyda'r Awdurdodau Lleol ac ysgolion i weld sut orau i baratoi ar gyfer trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol** |

| **3: Ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, tegwch a lles** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf.*** | ***Her*** | ***Gweithredu*** | ***Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020*** | ***Yn Gyfrifol*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Cyllid*** |
| **3.1** | **Cefnogi Strategaeth dysgwyr bregus** | Diwygio'r broses o benderfynu a bod yn atebol am werthuso ac archwilio'r grant GDD rhwng ysgolion, yr Awdurdod Lleol a Chonsortia.<br><br>Cryfhau rôl yr YCG mewn cynorthwyo ysgolion i werthuso cynnydd eu dysgwyr bregus a gyda defnyddio'r GDD.<br><br>Datblygu dull person-ganolog o wrando ar leisiau pob grŵp o ddysgwyr. | Mae perfformiad dysgwyr PYD ar draws y rhanbarth wedi cynyddu'n unol / neu'n fwy na'r gwelliant cyfartalog cenedlaethol yn y prif ddangosyddion.<br><br>Y Grŵp Strategol Rhanbarthol i gwrdd bob tymor gyda chylch gorchwyl clir.<br><br>Mae'r holl gynlluniau GDD yn cael eu harchwilio'n flynyddol drwy'r rhanbarth gyda'r effaith ac arferion llwyddiannus yn cael eu rhannu drwy G6.<br><br>Data crynodol a ffurfiannol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i dargedu gwelliannau. | Sharon Williams | Mai 2019<br><br>Medi 2019<br><br>Rhagfyr 2019<br><br>Ebrill – Mehefin 2019 | GDD |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

| 3: Ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, tegwch a lles | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf.*** | ***Her*** | ***Gweithredu*** | ***Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020*** | ***Yn Gyfrifol*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Cyllid*** |
| | | | 70% o'r cydweithio ysgol i ysgol / clwstwr rhanbarthol yn rhan o gyflwyno arferion seiliedig ar dystiolaeth. | | | |
| **3.2** | **Datblygu ymhellach y strategaeth PMG** | Gweithredu'r strategaeth GDD / PMG gan fesur ei heffaith a'r canllawiau gwerthuso ar draws y rhanbarth.<br><br>Gweithredu ffynhonnell ddata gyson i sicrhau bod gwybodaeth yr Awdurdod Lleol am blant PMG yn cael ei rhannu â'r consortia.<br><br>Asesu a thracio cynnydd plant PMG yn rheolaidd ar draws y rhanbarth. | Mae perfformiad plant PMG ar draws y rhanbarth wedi cynyddu'n unol / neu'n fwy na'r gwelliant cyfartalog cenedlaethol yn y prif ddangosyddion.<br><br>Mae cynllun Cefnogi GDD / PMG clir a thrylwyr yn ei le ac wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae model fframwaith wedi'i weithredu ar draws y rhanbarth drwy'r canllawiau grant ac mae canllawiau / system werthuso drylwyr yn ei lle.<br><br>Mae proffil un dudalen glir ar gyfer Ysgolion / Clwstwr yn ei le'n dangos tystiolaeth o effaith y grant GDD ar PMG. | Sharon Williams | Ebrill 2019 – Mawrth 2020<br><br>Ebrill 2019<br><br>Ebrill 2019 – Mawrth 2020<br><br>Ebrill 2019 | PMG (LAC) |
| **3.3** | **Gweithio gyda'r Awdurdodau Lleol ac ysgolion i weld sut orau i baratoi ar gyfer trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol** | Swyddog Dysgu Proffesiynol yn ei le wedi'i ddarparu gan yr Awdurdod Lleol a GwE.<br><br>Arferion effeithiol yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth i leihau dyblygu a llwythi gwaith. | Mae'r cynnig dysgu proffesiynol yn cynorthwyo i ddeall a chyflwyno Trawsnewid ADY.<br><br>Mae astudiaethau achos o arferion llwyddiannus ar gael ar G6 ac yn seiliedig | Margaret Davies | Haf 2019<br><br>Hydref 2019<br><br>Haf 2019 | ADY<br><br>Grantiau trawsnewid |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

| 3: Ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, tegwch a lles | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf.*** | ***Her*** | ***Gweithredu*** | ***Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020*** | ***Yn Gyfrifol*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Cyllid*** |
| | | Rhwydweithiau trawsnewid ADY a chlwstwr wedi eu sefydlu ac yn cael eu cefnogi gan y tîm YCG.<br><br>Mae gan bob clwstwr gynllun gweithredu'n adnabod camau nesaf y daith ddiwygio.<br><br>Mae pob awdurdod lleol, GwE ac asiantaethau cyswllt yn cymeradwyo'r cynllun trawsnewid rhanbarthol a'r blaenoriaethau cyllid. | ar waith y clystyrau ac Awdurdodau Lleol.<br><br>Mae rhwydweithiau proffesiynol yn eu lle ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, canolfannau arbenigol a model clwstwr. Mae'r ysgolion i gyd yn rhan o'r model clwstwr lleol ac yn derbyn cymorth ariannol drwy'r grant trawsnewid.<br><br>Mae cynllun trawsnewid yn ei le ac wedi'i gymeradwyo gan aelodau etholedig. | | Hydref 2019<br><br>Mehefin 2019 | |

# Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20

## 4: TREFNIADAU ASESU, GWERTHUSO AC ATEBOLRWYDD TRYLWYR I GEFNOGI SYSTEM O HUNAN-WELLA

| **Blaenoriaethau ar gyfer gwella:** |
|---|
| **Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd:**<br>**4.1 Datblygu systemau tracio ac asesu**<br>**4.2 Datblygu systemau atebolrwydd a rheoli**<br>**4.3 Datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu cadarn a chynlluniau gwella** |

| **4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd trylwyr i gefnogi system o hunan-wella** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf.*** | ***Her*** | ***Gweithredu*** | ***Mesurau / Targedau Cynnydd 2019-2020*** | ***Yn Gyfrifol*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Cyllid (£)*** |
